



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Ymyriadau ym maes cam-drin domestig yng Nghymru

**Jack Price, Sarah Quarmby, Craig Johnson a
Dan Bristow**
Medi 2020



Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella prosesau creu polisi a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael tystiolaeth annibynnol, drylwyr o'r hyn sy'n gweithio, ac i ddefnyddio'r dystiolaeth honno. Mae'n gweithio ar y cyd ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i syntheseiddio a manteisio ar y dystiolaeth sy'n bodoli'n barod, ac i ganfod bylchau pan fydd angen creu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth, ond mae'n gweithio'n agos gyda'r rheini sy'n llunio polisi ac ymarferwyr i ddatblygu ffyrdd newydd o feddwl am sut i roi sylw i heriau strategol yn y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi, a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ganfod, gweld a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i fod yn sail i bolisiau ac i wella polisiau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i weld, creu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol o bwys; a
- Defnyddio'i waith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth fod yn sylfaen ac yn fodd o wella prosesau creu polisi a gwasanaethau cyhoeddus, a chyfrannu at theorïau ym maes creu a gweithredu polisiau.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin capasiti ymhlith ymchwilwyr i ymwneud ag ymchwil sy'n berthnasol i bolisiau, a hwnnw'n cael gwir effaith.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk

Y Prif Gyllidwyr



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae Prifysgol Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, a honno'n awyddus i greu perthnasau rhyngwladol cryf ond gan ddangos ei hymrwymiad i Gymru ar yr un pryd.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol** (ESRC) yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU. Nod Ymchwil ac Arloesi yn y DU yw sicrhau'r cyfraniad mwyaf gan bob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau sy'n galluogi i ymchwil ac arloesi ffynnu.



Llywodraeth ddatganoledig Cymru yw **Llywodraeth Cymru**, ac mae'n gyfrifol am feysydd allweddol mewn bywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

Cynnwys

Crynodeb	4
Cyflwyniad	5
Y ddeddfwriaeth	7
Ffynonellau tystiolaeth ac ansawdd y dystiolaeth	10
Ymyriadau: y dystiolaeth a'r defnydd ohonynt yng Nghymru	12
Tai a Llochesi	12
Cydweithio amlasiantaethol	15
Eirioli dros ddiodefwyr	18
Y system cyfiawnder troseddol	19
Ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y cyflawnwr	19
Addysg a hyfforddiant	20
Plant a Cham-drin Domestig	21
Sylwadau rhanddeiliaid	22
Llywodraethu, goruchwyllo a chydweithio	23
Cyllido gwasanaethau	25
Comisiynu gwasanaethau	27
Casgliad	28
Cyfeiriadau	31
Atodiad 1: Argymhellion Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen	37
Atodiad 2: Argymhellion Gweithdy Goroeswyr Llywodraeth Cymru	41

Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr ymyriadau a ddefnyddir i fynd i'r afael â cham-drin domestig ac i gadw pobl yn ddiogel, gan osod y rhain yng nghyd-destun deddfwriaethol Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.
- Mae goroeswyr ac ymarferwyr yn rhoi gwerth mawr ar lochesi, sy'n cynnig gwasanaeth hanfodol i'r rheini y mae angen eu gwarchod ar unwaith, neu y mae angen seibiant arnynt. Fodd bynnag, maent yn ymyriad eithafol, ac efallai na fyddant yn ateb anghenion pob goroeswr. Mae angen llety symud ymlaen digonol er mwyn sicrhau bod llefydd yn dal i fod ar gael mewn llochesi.
- Mae'r dystiolaeth ar ei chryfaf dros wasanaethau eirioli fel cynghorwyr trais domestig annibynnol, neu wasanaethau eirioli annibynnol eraill. Ceir corff cynyddol o dystiolaeth o blaid ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y cyflawnwr, ond megis dechrau cael eu defnyddio y mae'r rhain yng Nghymru.
- Ni ellir ystyried rôl a gwerth llochesi ac ymyriadau penodol eraill ar wahân i'r ffactorau systemig ehangach sy'n dylanwadu ar ba mor effeithiol ydynt. Roedd hyn yn ganolog i waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2012, a oedd yn sail i ddatblygu'r Ddeddf.
- Roedd y Ddeddf yn ceisio gwella ymateb y sector cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a sicrhau cysondeb yn y gwasanaethau a ddarperir drwy roi ffocws strategol iddynt a chyflwyno dull ataliol o weithio.
- Mae'r Ddeddf wedi arwain at rai gwelliannau i wasanaethau ac yn benodol wedi canolbwyntio sylw pobl ar y maes trais a cham-drin domestig. Fodd bynnag, mae problemau o bwys yn dal i fodoli.
- Mae cyllid yn dal i bryderu rhanddeiliaid. Mae ffynonellau cyllido tameidiog a dyraniadau tymor byr yn golygu ei bod yn anodd defnyddio cyllid yn strategol. Mae nifer o randdeiliaid yn dadlau nad yw'r cyllid sydd ar gael yn ddigon i ateb yr anghenion.
- Mae'r camau llywodraethu ac atebolrwydd yn well nag oeddent cyn cyflwyno'r Ddeddf, ond nid ydynt yn cyd-fynd ag argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, na gofynion y Ddeddf ei hun. Mae angen gwell arweinyddiaeth ar lefel leol i flaenoriaethu'r maes trais a cham-drin domestig, ynghyd â chyflwyno dulliau atebolrwydd cryfach ar lefel genedlaethol.

Comisiynwyd yr adroddiad hwn yn 2019, a chafodd ei gwblhau cyn pandemig y Coronafeirws. O ganlyniad, nid yw'n rhoi sylw i ddatblygiadau – yn bolisiau ac yn ddigwyddiadau – ers mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r adroddiad yr un mor berthnasol a phwysig – os nad yn fwy felly – ac ystyried y dystiolaeth o gynnydd mewn cam-drin domestig yn ystod y cyfyngiadau symud.

Cyflwyniad

Daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn gyfraith yn 2015 (defnyddir 'trais a cham-drin domestig' i gyfeirio at y pwnc yn gyffredinol o hyn allan, a'r 'Ddeddf' i gyfeirio at y ddeddfwriaeth.) Un o brif amcanion y Ddeddf yw gwella camau i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ynghyd â chefnogi a gwarchod dioddefwyr. Roedd y Ddeddf yn sefydlu swydd Cynghorydd Cenedlaethol ym maes trais ar sail rhywedd, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac yn rhoi cyfrifoldeb ar Weinidogion, awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi strategaethau i roi'r Ddeddf ar waith.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru edrych o'r newydd ar y dystiolaeth ynghylch ymyriadau i gadw pobl yn ddiogel, ac yn benodol y dystiolaeth ryngwladol ynghylch darparu gwasanaethau. Gofynnodd i'r Ganolfan ystyried hefyd sut roedd y Ddeddf wedi'i datblygu a'i rhoi ar waith. Mae'r papur hwn yn ystyried sut y darperir lloches yng Nghymru, yr ymyriadau eraill sy'n cyd-fynd ac sy'n lleihau'r angen i ddarparu lloches, a sut y mae'r Ddeddf wedi'i rhoi ar waith. Gwnaed hyn drwy adolygu'r dystiolaeth ryngwladol, a thrwy ymwneud â'r prif rhanddeiliaid yn y maes trais a cham-drin domestig.

Ym mis Mehefin 2019, cynhaliodd y Ganolfan gyfarfod bwrdd crwn â chynghorwyr lleol a rhanbarthol, ynghyd â swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y digwyddiad yn edrych ar sut y mae'r Ddeddf wedi'i rhoi ar waith, ac ar gysondeb y gwasanaethau trais a cham-drin domestig sy'n cael eu darparu yng Nghymru. Ers hynny, mae'r Ganolfan wedi cynnal cyfres o weithdai gyda'r rheini sydd wedi'u dynodi gan Lywodraeth Cymru yn rhanddeiliaid cenedlaethol. Yn eu plith mae darparwyr gwasanaethau, elusennau a chynghorwyr y llywodraeth. Yn y gweithdai, trafodwyd sut y mae'r Ddeddf wedi'i rhoi ar waith, ynghyd ag ymyriadau penodol a'r gefnogaeth sydd ar gael. Cynhaliwyd cyfarfod bwrdd crwn ym mis Ionawr 2020 gan ddwyn ynghyd gynrychiolwyr y sector trais a cham-drin domestig i drafod ein casgliadau cychwynol ac edrych ar eu goblygiadau. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif negeseuon o'r digwyddiad hwnnw, ynghyd ag adolygu'r ymchwil a'r dystiolaeth academiaidd. Er mwyn annog trafodaethau agored a gonest, cynhaliwyd ein sgysiau o dan reol Chatham House. Yn yr adroddiad hwn, cyflwynir sylwadau'r cyfranogwyr a'r

rhanddeiliaid heb ddweud pwy ydynt. Mae'r Ganolfan hefyd wedi defnyddio canlyniadau gweithdy i orosywyr a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru, ac mae argymhellion y gweithdy hwnnw i'w gweld yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

Mae polisiâu ac arferion ym maes trais a cham-drin domestig yn berthnasol i nifer o sectorau a phortffolios polisi gwahanol. Mae'r cymwyseddau wedi'u datganoli yn rhai o'r rhain, tra nad ydynt mewn rhai eraill. Llywodraeth y DU sy'n rheoli cyfiawnder troseddol a phlisma, mewnfudo a chyfiawnder teuluol, tra mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am iechyd, addysg, tai, gwasanaethau plant ac elfennau o ddiogelwch cymunedol. Mae termau cyffredinol fel trais ar sail rhywedd a thrais yn erbyn menywod yn cael eu defnyddio i ddisgrifio trais domestig yn erbyn menywod. Dyma ddiffiniad Llywodraeth Cymru o gam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a thrais rhywiol:

Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n cynnwys ymddygiad sy'n rheoli, yn gorfodi neu'n fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng unigolion dros 16 oed sydd yn, neu sydd wedi bod yn bartneriaid neu'n aelodau o'r un teulu, beth bynnag fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall y gamdriniaeth gynnwys cam-drin seicolegol, corfforol, ariannol neu emosiynol.

Yr elfennau eraill o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yw: treisio a thrais rhywiol; priodas o dan orfod; aflonyddu rhywiol; 'trais ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir; camfanteisio rhywiol trwy'r diwydiant rhyw/puteindra; stelcio; masnachu pobl (Swyddfa Archwilio Cymru, 2019: 5).

Ceir datganiadau i egluro yn y diffiniad hwn, gan gynnwys datganiad sy'n egluro nad yw'r uchod yn gyfyngedig i unrhyw rywedd neu grŵp penodol. Fodd bynnag, mae menywod yn llawer mwy tebygol o ddiodeff o gam-drin domestig na dynion, ac mae dynion yn fwy tebygol o gyflawni cam-drin, yn erbyn menywod neu ddynion. Yn ôl amcangyfrif Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ym mis Tachwedd 2019, profodd 2.4 miliwn o oedolion gam-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019, sef 1.6 miliwn o fenywod a 786,000 o ddynion (Elkin, 2019). Oherwydd yr anghydbwysedd hwn rhwng y rhywiau, mae adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn rhybuddio nad yw'n briodol darparu na chomisiynu gwasanaethau trais a cham-drin domestig sy'n niwtral o ran y rhywiau (Robinson et al., 2012). Mae'r canllawiau statudol ar gyfer comisiynu gwasanaethau trais a cham-drin domestig yng Nghymru hefyd yn cynnwys yr angen i roi ystyriaeth arbennig i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, fel rhyw, oedran, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabled neu feichiogrwydd (Llywodraeth Cymru, 2019b).

Y ddeddfwriaeth

Er mwyn deall cyd-destun darparu gwasanaethau yng Nghymru, mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn hollbwysig, ynghyd â'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Ddeddf. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Deddf 2015, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2012. Yn aelodau ohono roedd academyddion, Gwasanaeth Erllyn y Goron, yr heddlu, cyrff anllywodraethol (gan gynnwys Cymorth i Ferched Cymru a'r NSPCC), a defnyddiwr gwasanaethau. Cyflwynodd y grŵp gyfres o argymhellion polisi unigryw i Gymru, a'r rheini wedi'u seilio ar y dystiolaeth o blaid ymyriadau ac ar gyd-destun Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ochr yn ochr â Phapur Gwyn y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2012, ac arweiniodd hynny at gyflwyno'r Bil Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Cymru) yn haf 2014.

Roedd gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried trais a cham-drin domestig yn fater systemig, a hwnnw'n gofyn am gamau gweithredu wedi'u cydlynu drwy'r holl sector cyhoeddus. Roedd argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan hynny yn canolbwyntio ar integreiddio, ad-drefnu a chydlynu gwasanaethau.

Nid yw'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n unffurf o gwbl, ac mae'r cyllid a'r gefnogaeth gan lywodraeth leol yn anghyson drwy Gymru. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n dameidiog, ac nid yw'n faes sy'n cael ei oruchwyllo'n strategol mewn ffordd gyson¹ (Robinson et al., 2012).

Mae crynodeb llawn o'r argymhellion i'w gweld yn yr atodiad i'r adroddiad hwn. Gan fod pob un yn atgyfnerthu'r llall, dadleuodd y grŵp yn gryf y dylid eu cyflwyno i gyd gyda'i gilydd. Mae'r argymhellion wedi'u grwpio o dan dri phennawd. Mae rhestr o'r penawdau hyn a'r themâu sy'n codi'n dilyn:

- **Arweinyddiaeth:** Mae angen arweinyddiaeth annibynnol gryfach drwy Gymru er mwyn gallu monitro a herio'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu, a sicrhau goruchwyliaeth strategol. Un ffordd o wneud hyn yw creu dull i roi arweinyddiaeth strategol ar fater trais yn erbyn menywod. Cafodd hyn ei gynnwys yn y Ddeddf drwy sefydlu rôl Cynghorydd Cenedlaethol.
- **Gwell addysg ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd:** Gall gwella addysg, hyfforddiant ac ymgyrchoedd drwy'r wlad wella ymwybyddiaeth a helpu i greu diwylliant cefnogol. Mae'r argymhellion o dan y pennawd hwn yn cynnwys gwneud addysg cydraddoldeb rhywiol yn bwnc statudol yn y cwricwlwm cenedlaethol, a rhoi

¹ 'Service provision is far from uniform, and local government funding and support is inconsistent across Wales. Delivery of services is patchy with no consistent strategic oversight of the issue'

hyfforddiant gorfodol sy'n gyson drwy'r wlad i bob gweithiwr rheng flaen proffesiynol, a hynny'n gysylltiedig â chymhwyster Datblygu Proffesiynol.

- **Cryfhau gwasanaethau:** Mae angen cryfhau ac integreiddio gwasanaethau fel bod y ddarpariaeth yn gyson. Gall buddsoddi wedi'i dargedu a chefnogi ymyriadau penodol helpu, fel sicrhau bod gan bob bwrdd iechyd sydd â darpariaeth damweiniau ac achosion brys broses i adnabod a helpu dioddefwyr cam-drin domestig; defnyddio llochesi fel llety dros dro mewn argyfwng am gyfnodau byr, ac fel yr opsiwn olaf wrth ailgyfeirio adnoddau i gyflwyno camau sy'n galluogi dioddefwyr i aros yn eu cartrefi'u hunain; a chynyddu'r llety symud ymlaen sydd ar gael i'r rheini sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi eu hunain yn barhaol, gan gynnwys llety rhentu preifat os nad oes digon o gyflenwad o dai cymdeithasol.
- Mae cryfhau gwasanaethau hefyd yn golygu rhoi dyletswydd statudol ar gyrff y sector cyhoeddus i gyfrannu at **brosesau rhannu gwybodaeth amlasiantaethol**, a hynny'n gofyn am gydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

At hynny, cyflwynodd y grŵp nifer llai o gynigion lefel uchel i gryfhau gwasanaethau:

1. Sefydlu agenda gyson ar gyfer Cymru gyfan yn y maes trais a cham-drin domestig.

Bydd y Comisiynydd² yn datblygu fframwaith canlyniadau ar gyfer trais a cham-drin domestig drwy Gymru gyfan, a'r fframwaith hwnnw'n cynnwys canlyniadau rhanbarthol a lleol. Er mwyn i'r Comisiynydd orfodi safonau sy'n sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu i ddioddefwyr a chyflawnwyr, mae angen datblygu fframwaith cryf ar gyfer ymyrryd mewn ffordd gynaliadwy, gyda phwyslais amlwg ar weithredu lleol.

2. Datblygu cynlluniau rhanbarthol ym maes trais a cham-drin domestig. Bydd y cynlluniau hyn wedi'u seilio ar asesiad o anghenion poblogaeth y rhanbarth, a chan gynlluniau lleol, a rhaid iddynt ddangos sut y cyflawnir fframwaith canlyniadau'r Comisiynydd. Bydd rhaid cyflwyno'r cynlluniau hyn i'r Comisiynydd, a fydd yn gorfod eu cymeradwyo, gan y byddant yn rhoi'r sylfaen ar gyfer monitro ar sail tystiolaeth a dwyn ardaloedd i gyfrif.

3. Hyrwyddo gwaith amlasiantaethol ym maes trais a cham-drin domestig. Er mwyn gwneud cynnydd gyda'u cynllun rhanbarthol ym maes trais a cham-drin domestig, bydd angen i gyrff cyhoeddus gydweithio ac ni ddylai eu bwriadau fod yn groes. Bydd y Comisiynydd yn monitro'r camau a gymerir gan gyrff cyhoeddus, a fydd yn sicrhau eu bod yn atebol am ddarparu gwasanaethau o ansawdd da.

4. Datblygu fframwaith comisiynu cynaliadwy ar gyfer Cymru gyfan. Bydd dyletswydd i ddarparu gwasanaethau'n unol â'r asesiad o anghenion. Rhaid seilio'r gwasanaethau a ddarperir ar y galw yn hytrach na chyflwyno pob gwasanaeth ar yr un lefel ym mhob ardal.

² Yn y Ddeddf ei hun, cafodd cyfrifoldebau'r Comisiynydd eu rhoi i Gynghorydd Cenedlaethol.

Bydd yn hanfodol blaenoriaethu gwasanaethau effeithiol sy'n rhoi gwerth da am arian ac sy'n gyson ag agenda ataliol (e.e. gwella diogelwch yn hytrach na dibynnu'n ormodol ar lochesi). Bydd angen mabwysiadu safonau darparu gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol o ansawdd da yn cael eu darparu.

Ffynhonnell: Robinson et al., 2012.

Daeth y Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gyfraith yn 2015. I gyd-fynd â hi, cyflwynwyd Strategaeth Genedlaethol ar drais a cham-drin domestig yn 2016. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn creu gweledigaeth ar gyfer gwella'r gwaith o atal, diogelu a chefnogi'r rheini sy'n profi trais a cham-drin domestig, neu sydd wedi profi hynny. Un o amcanion y Ddeddf yw gwella ymateb y sector cyhoeddus i bob math o drais yn erbyn menywod yng Nghymru drwy roi ffocws strategol i'r gwaith, a thrwy hynny sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n fwy cyson (Johnson, 2017).³

Yn benodol, mae'r Ddeddf yn cyflwyno nifer o ddyletswyddau. Mae gofyn i Weinidogion Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol sy'n pennu amcanion, camau gweithredu ac amserlenni, ynghyd â chymau rhesymol i'w cyflawni (Llywodraeth Cymru, 2015). Yn yr un modd, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi strategaethau lleol ar y cyd ar gyfer ardal yr awdurdod lleol. Fe all Gweinidogion a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru roi canllawiau i gyrff llywodraethu sefydliadau addysg uwch ynghylch y ffordd orau o gydymffurfio â'r Ddeddf. Gall Gweinidogion hefyd gyhoeddi canllawiau statudol i 'awdurdodau perthnasol', er nad yw'n rheidwydd ar awdurdodau perthnasol i ddilyn y canllawiau mewn rhai sefyllfaoedd. Mae'r Ddeddf yn creu rôl Cynghorydd Cenedlaethol i gynghori a chynorthwyo Gweinidogion i roi'r Ddeddf ar waith, i wneud gwaith ymchwil, ac i gyhoeddi adroddiadau ar faterion sy'n ymwneud â'r Ddeddf. Er mwyn mesur sut y caiff y Ddeddf ei rhoi ar waith, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol y gellir eu defnyddio i fesur y cynnydd tuag at gyflawni diben y Ddeddf, ynghyd â chyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n dangos y cynnydd sydd wedi'i wneud o dan y strategaethau cenedlaethol a lleol. Cyhoeddwyd y gyfres o ddeg dangosydd cenedlaethol ym mis Mehefin 2019 (Llywodraeth Cymru, 2019c).

Mae'r broses o roi rhai elfennau o'r Ddeddf ar waith wedi bod yn un araf (Johnson, 2017), ac nid yw effaith y Ddeddf hyd yma wedi'i gwerthuso. Serch hynny, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi canlyniadau adolygiad o'r modd y mae'r Ddeddf wedi'i rhoi ar waith (Swyddfa Archwilio Cymru, 2019).

³ Ymhlith amcanion eraill y Ddeddf mae gwella'r trefniadau i atal trais a cham-drin domestig, gwella'r trefniadau i amddiffyn dioddefwyr a'r rheini y mae trais a cham-drin domestig yn effeithio arnynt, ac yn gyffredinol, symud tuag at ddull ataliol o fynd i'r afael â'r ffactorau a allai gynyddu'r risg neu fel arall waethygu'r risg o drais a cham-drin domestig (Llywodraeth Cymru, 2015).

Ffynonellau tystiolaeth ac ansawdd y dystiolaeth

Gofynnwyd i'r Ganolfan ystyried y sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwahanol fodolau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a hynny o ran darparu lloches a'r opsiynau eraill. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn ystyried y dystiolaeth ymchwil ar gyfer ymyriadau penodol ym maes cam-drin domestig, ond yn ehangach na hynny, mae'n ystyried tystiolaeth gan randdeiliaid am sut y mae gwasanaethau trais a cham-drin domestig wedi'u rhoi ar waith yng Nghymru. Un rheswm am hyn yw bod y dystiolaeth yn dameidiog am ba ymyriadau ym maes cam-drin domestig sy'n effeithiol. At hynny, wrth ymchwilio i gam-drin domestig, gall ystyriaethau cymhleth sy'n ymwneud â moeseg a diogelwch gyfyngu ar y cynnydd y mae modd ei wneud yn y maes hwn (Trabold et al., 2018). Mae gwahaniaethau yn y modelau cenedlaethol a ddefnyddir i werthuso ymyriadau ac ymchwilio i ymyriadau hefyd yn golygu ei bod yn anodd cael meini prawf cadarn i fesur effeithiolrwydd: er enghraifft, mae Trabold et al (2018) yn defnyddio model meddygol nad yw'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod pan oedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wrth ei waith, dim ond cyfran fechan o ymyriadau oedd wedi bod yn destun ymchwil gwerthuso cadarn, ac mae Maxwell a Robinson (2013) yn dadlau mai prin oedd y gwaith ymchwil a oedd ar gael ar y pryd a oedd yn cydymffurfio â "safon aur" treialon hapsamplu rheolyddedig. Er y tybir yn gyffredinol mai treialon hapsamplu rheolyddedig sy'n rhoi'r dystiolaeth fwyaf dibynadwy ar gyfer ymyriadau polisi penodol, dylid nodi nad yw presenoldeb neu absenoldeb astudiaethau sydd wedi'u seilio ar dreialon o'r fath yn dystiolaeth bendant o blaid nac yn erbyn ymyriad, yn enwedig mewn sefyllfaoedd cymhleth fel rhai sy'n ymwneud â thrais a cham-drin domestig.

Mae'r sylfaen dystiolaeth ar ei chryfaf ar gyfer ymyriadau sy'n ymwneud ag eirioli dros ddiodefwyr. Gwelwyd bod yr ymyriadau hynny'n effeithiol ac yn gost-effeithiol, yn y tymor byr o leiaf. Un o argymhellion y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ym maes cam-drin domestig, a hwnnw wedi'i seilio ar dystiolaeth, yw y dylid rhoi gwasanaethau eirioli a chynghori i bawb y mae trais a cham-drin domestig yn effeithio arnynt (neu wedi effeithio arnynt yn ddiweddar). Dylid teilwra'r gwasanaethau hyn i gyd-fynd â lefel risg ac anghenion penodol y bobl dan sylw (NICE, 2014). Mae Trabold et al. (2018: 1) hefyd wedi canfod tystiolaeth o blaid gwasanaethau sydd wedi'u teilwra i unigolion: 'mae'r canlyniadau'n dangos bod eirioli i rymuso pobl ac ymyriadau clinigol sy'n canolbwyntio ar

elfennau gwybyddol yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol⁴ wrth helpu'r rheini y mae 'trais yng nghyd-destun perthynas agos'⁵ yn effeithio arnynt.

Gall ymyriadau ym maes cam-drin domestig ganolbwyntio ar y sawl sy'n cyflawni'r cam-drin neu ar y dioddefwr, a gellid dilyn dull ataliol o weithio, fel y nodir yn y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys gwaith ataliol 'cynradd', sy'n canolbwyntio ar atal trais rhag digwydd; gwaith ataliol 'eillaidd', sy'n ceisio atal trais rhag ailddigwydd; neu waith ataliol 'trydyddol', sy'n ceisio cyfyngu ar effeithiau trais neu reoli canlyniadau trais (Kirk et al., 2017). Mae tuedd i ddarpariaeth ganolbwyntio ar y goroeswyr yn hytrach na'r cyflawnwyr. Gellid dadlau bod hyn yn gorbwysleisio rôl y goroeswyr (sy'n cael eu cefnogi, ond hwy sy'n gorfod cyflawni'r 'gwaith' o adfer), ac yn tanbwysleisio rôl y cyflawnwyr (sy'n cael eu beio, ond ddim wastad yn cael eu cefnogi i newid eu hymddygiad). Gallai hyn fod yn arwydd o anghydraddoldebau systemig yn y modd y mae pobl wedi deall ac wedi ymdrin â cham-drin domestig yn y gorffennol, a gall rhagdybio bai fod yn ymhlyg yn hynny (Gracia a Herrero, 2006).

Y dull symlaf o fesur 'llwyddiant' yw sefyllfa lle na fydd y cyflawnwr yn aildroseddu, a lle na fydd y dioddefwr yn dioddef mwy o gam-drin (Robinson a Maxwell, 2013).⁶ Mae astudiaethau eraill yn defnyddio amrywiaeth o dulliau o fesur llwyddiant, gan gynnwys iechyd corfforol a lles seicolegol y dioddefwyr, ac mae hynny'n cymhlethu'r gwaith o gymharu effeithiolrwydd gwahanol ymyriadau (Trabold et al., 2018). Rhaid rhoi sylw i amserlenni wrth fesur llwyddiant: gallai ymyriad ymddangos yn llwyddiannus yn y tymor byr, ond heb fod iddo lawer o effaith hirdymor, os o gwbl, ac i'r gwrthwyneb. Er y gall pobl o bob oed ddioddef o gam-drin domestig, mae'r risg yn dueddol o leihau yn ystod oes rhywun, yn annibynnol ar ymyriadau, ac mae hynny'n rhoi her wrth geisio barnu ai ymyriadau sy'n gyfrifol am y risg is, ynteu ai wedi lleihau'n 'naturiol' y mae (Maxwell a Robinson, 2013). Yma, rydym yn trafod llwyddiannau'n bennaf yn nhermau aildroseddu neu ailddioddef, ac ymdeimlad goddrychol y dioddefwr o ddiogelwch a lles.

Sefydliadau sy'n cefnogi ac yn darparu gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig sydd wedi creu darnau helaeth o'r llenyddiaeth nad yw'n academiaidd am y pwnc hwn. Mae'r llenyddiaeth yn rhoi gwybodaeth bwysig o safbwynt y rheini sy'n wybodus am y pwnc yn sgil eu gwaith, ond nid yw'n ddiduedd. Ceir prinder adolygiadau annibynnol gan gymheiriaid, sy'n achosi problemau. Yn yr un modd, mae codau ymarfer a chanllawiau ym maes cam-drin domestig yn aml wedi'u seilio ar ymgynghoriadau ymhlith rhanddeiliaid a gwybodaeth a

⁴ 'results indicate that both empowerment-based advocacy and cognitively focused clinical interventions demonstrate positive outcomes'

⁵ 'violence in the context of an intimate relationship'

⁶ Hynny yw, dyma un ffordd o edrych ar llwyddiant o safbwynt polisi cyhoeddus. Bydd goroeswyr serch hynny yn credu nad yw hwn yn ganlyniad llwyddiannus os na fyddant, er enghraifft, yn teimlo iddynt gael cyfiawnder – sut bynnag y caiff hynny'i ddiffinio.

gasglwyd drwy brofiad, yn hytrach nag ar dystiolaeth ymchwil, er nad yw hyn yn wir bob tro. Rhaid bod yn ofalus wrth wahaniaethu rhwng tystiolaeth ymchwil sydd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid, a thystiolaeth tystion, er bod yr adroddiad hwn yn cydnabod bod y naill a'r llall yn ffurfiau dilys a gwerthfawr ar wybodaeth. Er enghraifft, mae gwybodaeth gan randdeiliaid a sefydliadau yn arbennig o ddefnyddiol wrth asesu sut y mae'r Ddeddf wedi'i rhoi ar waith yng Nghymru, wrth i brofiad grwpiau proffesiynol lenwi bwlch yn y dystiolaeth nad yw ar gael drwy'r dystiolaeth ymchwil.

Mae'r adran nesaf, gan hynny, yn ystyried ymyriadau penodol gyda golwg ar argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen; y dystiolaeth ymchwil am ba mor effeithiol yw'r Ddeddf; a'r sefyllfa bresennol yng Nghymru wrth edrych ar yr ymyriadau hyn, a hynny ar sail tystiolaeth rhanddeiliaid.

Ymyriadau: y dystiolaeth a'r defnydd ohonynt yng Nghymru

Wrth ystyried sut y mae'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith, rydym wedi cyfuno adolygiad cyflym o'r dystiolaeth o ymyriadau effeithiol ym maes cam-drin domestig a safbwyntiau rhanddeiliaid yng Nghymru. Ymhlith y rhanddeiliaid hyn y mae Cynghorwyr Trais a Cham-drin Domestig Cenedlaethol a Rhanbarthol, unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn y sector trais a cham-drin domestig, a goroeswyr. Mae hyn yn ein galluogi i ddangos ble mae Cymru'n llwyddo, yn ôl y dystiolaeth, a ble y gall mwy o waith fod i'w wneud o hyd. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ymyriadau penodol, y sylfaen dystiolaeth ar eu cyfer, a'r cynnydd sydd wedi'i wneud i'w rhoi ar waith yn ôl adroddiadau rhanddeiliaid. Ond fel y nodir uchod, ni ellir ystyried unrhyw ymyriad neu gyfres o ymyriadau ar eu pennau'u hunain, ar wahân i'r ffactorau systemig ehangach sy'n dylanwadu ar ba mor effeithiol ydynt.

Tai a Llochesi

Yn draddodiadol, mae llochesi wedi bod yn ganolog yn y ddarpariaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig yng Nghymru. Fel arfer, bydd llochesi'n cyfuno llety dros dro mewn argyfwng a mathau eraill o gefnogaeth emosiynol ac ymarferol (Robinson et al., 2012). Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i wasanaethau llety. Yn ôl Cymorth i Ferched Cymru, sy'n rheoli cronfa ddata UK Routes to Support ar gyfer defnyddio gwasanaethau yng Nghymru, mae cefnogaeth sydd wedi'i seilio ar lety yn golygu cefnogaeth sy'n darparu 'rhaglen wedi'i chynllunio o gefnogaeth therapiwtig ac ymarferol, y tu hwnt i le diogel i aros ynddo, a'r gallu i gael cefnogaeth gan

oroeswyr eraill⁷ (Cymorth i Ferched Cymru, 2019). Gallai rhaglen gefnogi o'r fath gynnwys cymorth ymarferol, cefnogaeth gan unigolion a grwpiau, ynghyd â chefnogaeth ac eirioli mewn meysydd fel tai, arian, iechyd, mewnfudo, problemau cyfreithiol, problemau addysg a phroblemau cyflogaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Mae hefyd yn cynnwys cefnogaeth i fynd o lochesi i lety 'symud ymlaen' mwy parhaol. I gyd-fynd â rhwydwaith Cymorth i Ferched Cymru o wasanaethau arbenigol yng Nghymru, ceir fframwaith o safonau ansawdd gwasanaeth wedi'u hachredu ar gyfer cam-drin domestig, ynghyd â safonau gwasanaeth penodol ar gyfer trais rhywiol, a'r rheini wedi'u hachredu gan Rape Crisis Cymru a Lloegr a'r Survivors Trust (Cymorth i Ferched Cymru, 2018a; Rape Crisis d.d.) At hynny, pan fyddant yn berthnasol, defnyddir safonau gwasanaeth Imkaan ar gyfer gwasanaethau arbenigol sy'n cael eu harwain gan fenywod o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i fenywod o'r un cefndir, a safonau Respect ar gyfer gweithio gyda chyflawnwyr (Imkaan, 2016; Respect, 2017).

Ac ystyried amrywiaeth y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan lochesi, mae'n anodd gwerthuso pa mor effeithiol ydynt yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw astudiaethau wedi canfod unrhyw berthynas o bwys rhwng ansawdd y gwasanaethau llochesi sydd ar gael mewn ardal a chyfraddau'r cam-drin domestig yn yr ardal honno (Maxwell a Robinson, 2013). Ni wnaeth Wathen a MacMillan (2003) ganfod unrhyw dystiolaeth bod llochesi yn rhwystro pobl rhag cam-drin eto, nac yn rhwystro pobl rhag dioddef eto, er nad dyma brif ddiben darparu lloches. Yn hytrach, eu nod yw ceisio helpu goroeswyr, gan gynnwys plant, i adfer ar ôl cael eu cam-drin. Er gwaethaf hyn, mae Adroddiad Blynyddol Refuge ar gyfer 2017/2018 yn dweud bod '93.7% o'r menywod a gafodd eu cefnogi wedi dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel wrth adael⁸ y lloches (Refuge, 2018). Er mai cyfeirio at wasanaethau yn Lloegr oedd y ffigur hwn, mae'n awgrymu y gall llochesi wella ymdeimlad goddrychol dioddefwyr o'u lles. Dyma ganfyddiad sy'n ymddangos hefyd yn y llynyddiaeth academiaidd, er gwaethaf yr anawsterau wrth geisio darganfod pa rai o'r gwasanaethau niferus a ddarperir gan lochesi sy'n gyfrifol am hyn (Trabold et al., 2018).

Er mai cymysg yw'r dystiolaeth ynghylch pa mor effeithiol yw llochesi, maent yn angenrheidiol gan eu bod yn rhoi lle diogel i oroeswyr, ac yn eu gwarchod yn gorfforol ar unwaith rhag y cyflawnwr. Roedd goroeswyr yng ngweithdy Llywodraeth Cymru yn credu bod llochesi'n werthfawr iawn; roeddent yn teimlo bod eu darpariaeth arbenigol yn rhoi man diogel y tu hwnt i gyrraedd y cyflawnwr, a man i oroeswyr ddechrau ar y broses adfer. Fodd bynnag, mae goroeswyr hefyd yn cydnabod bod llochesi'n aml yn ymateb mewn argyfwng, gan ddadlau bod rhai mathau o ddarpariaeth 'lloches' yn llai addas, fel lleoli pobl mewn

⁷ 'a planned programme of therapeutic and practical support, above and beyond a safe place to stay, and access to peer support from other survivors'

⁸ '93.7% of the women we supported said they felt safer on exit'

llefydd gwely a brechwast neu westai. Roedd teimlad nad yw hynny'n ddiogel nac yn rhoi digon o gefnogaeth. Eto, mae'n bosibl y gallai hyn niwlio'r gwahaniaeth rhwng llochesi, a ddisgrifir uchod, a seibiant dros dro, sy'n fath gwahanol o ymyriad ym marn y sector.

Yr hyn sy'n amlwg o'r dystiolaeth yw bod llochesi'n wasanaeth hanfodol a chwbl angenrheidiol. Mae'n amlwg eu bod yn hollbwysig a'u bod, yn enwedig mewn achosion o argyfwng, yn rhoi seibiant a gofal i oroeswyr pan fydd yr angen mwyaf am hyn. I oroeswyr sy'n awyddus i adael eu sefyllfa o gam-drin, ac sy'n gallu gwneud hynny, mae i lochesi nifer o fanteision. Mae llochesi, serch hynny, yn fath eithafol o ymyriad. Yn ôl goroeswyr, gall gorfod gadael eu cartrefi deimlo fel cosb ychwanegol, neu wneud i bobl deimlo mai nhw sydd ar fai am y cam-drin. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi pwysleisio na fydd pob goroeswr yn dymuno neu'n gallu gadael y cartref. Efallai na fydd rhai grwpiau, fel pobl hŷn, yn awyddus i fynd i lochesi, gan deimlo nad ydynt yn rhoi darpariaeth breifat na chyfforddus. Dylid ystyried hefyd yr effaith seicolegol ar y goroeswyr (ac unrhyw bobl sy'n ddibynnol arnynt) wrth symud i ffwrdd o'u cartrefi a'u rhwydweithiau cefnogi lleol (Robinson et al., 2012). Mae rhanddeiliaid hefyd wedi awgrymu y dylid ystyried llochesi yn ymyriad dros dro, sy'n arwain at ddarparu cyfres ehangach o wasanaethau cefnogi, gan gynnwys llety mwy hirdymor.

Mae data a ddarparwyd gan y sector yn dangos bod cryn alw am lochesi yng Nghymru, gyda chyfanswm o 2,223 o oroeswyr (2,156 o fenywod a 67 o ddynion) yn cael eu cyfeirio at gefnogaeth wedi'i seilio ar lochesi yn 2018/19 (Cymorth i Ferched Cymru, 2019: 22). O blith y rhain, nid oedd modd i'r gwasanaeth gefnogi 726 o oroeswyr (691 o fenywod a 35 o ddynion), ac mewn 77% o'r achosion (512 o oroeswyr) roedd hyn oherwydd problemau capasiti (Cymorth i Ferched Cymru, 2019: 23). Mae hyn yn cynnwys y ffaith bod llochesi'n llawn, ynghyd â diffyg capasiti staff i gefnogi anghenion cymorth penodol. Problem arall yw statws y rheini nad ydynt yn gallu cael gafael ar arian cyhoeddus. Gall eu sefyllfa ariannol weithiau olygu nad oes modd iddynt ddefnyddio gwasanaethau sydd wedi'u seilio ar lochesi. Y data hyn yw'r unig fodd o wybod a yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i ateb y galw, ac maent yn awgrymu bod adnoddau a chapasiti llochesi yn broblem.

Yn ein sgrysiâu â rhanddeiliaid yng Nghymru, roedd yn amlwg nad oes modd gwahanu darpariaeth llochesi a llety 'symud ymlaen' wrth graffu ar y maes hwn. Clywsom mai un rheswm pam fod llochesi'n brin o le yw bod goroeswyr yn aros yn hwy nag y dylent gan nad oes llety addas ar gael iddynt symud yn eu blaenau iddo, ac weithiau ddim llety o gwbl. Soniwyd am y risg hon yn adroddiad gwreiddiol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac mae'n dal i fodoli nawr (Robinson et al., 2012). Mae diffyg stoc dai addas yn broblem ddirfawr, gyda rhanddeiliaid yn dweud bod prinder mewn darpariaeth i bobl sengl, teuluoedd a phobl hŷn. Mae rhai darparwyr yn ceisio darparu llety addas, a rhoddwyd enghreifftiau inni gan gynnwys tai â chymorth ar yr un stryd neu'r un ystad.

Problem arall yw symud goroeswyr yn eu blaenau pan fydd eu sefyllfa fyw flaenorol yn achosi neu wedi achosi anawsterau iddynt. Gall fod yn anodd trefnu i ad-dalu ôl-ddyledion

rhent, neu drefnu i gael budd-dal tai. Caiff goroeswyr eu cartrefu weithiau yn y sector rhentu preifat, ac nid yw'n glir beth yw effaith hirdymor hyn, o'i gymharu â darpariaeth tai cymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth tai yn amrywio drwy Gymru, ac mae rhanddeiliaid wedi sôn am 'loteri cod post' wrth drafod a fydd goroeswyr yn cael cynnig llety a sut fath o lety fydd hwnnw.

Mae rhywfaint o dystiolaeth am fodolau cefnogi gwahanol, sy'n golygu na fydd angen i'r goroeswyr symud allan o'u cartrefi'u hunain. Gallai'r rhain gynnwys ymyriadau sy'n gwella diogelwch. Ymyriadau yw'r rhain sy'n cyflwyno rhai o'r camau diogelwch a gysylltir fel arfer â llochesi, fel botymau panig a chloeon newydd, yng nghartrefi dioddefwyr. Dangoswyd bod y camau hyn yn gwneud i'r dioddefwr deimlo'n fwy diogel, heb y tryblith sy'n gysylltiedig â symud (Vallely et al., 2005). Dywed rhanddeiliaid sydd â phrofiad personol o hyn bod camau diogelwch ar eu mwyaf gwerthfawr o'u cyfuno â chefnogaeth gymunedol holistaidd gan wasanaethau arbenigol.

Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym bod darpariaeth llochesi yng Nghymru yn rhan o ddarlun ehangach o ymyriadau, ac y dylid ystyried gwasanaethau trais a cham-drin domestig yn eu cyfanrwydd. Gyda golwg ar hyn, mae'r adroddiad nawr yn edrych ar ymyriadau eraill a sut y maent yn cael eu defnyddio yng Nghymru.

Cydweithio amlasiantaethol

Mae tystiolaeth i gefnogi ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ddwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r gwahanol feysydd polisi sy'n berthnasol i gam-drin domestig. Fel y dywed adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (2012: 41):

Mae angen dulliau amlasiantaethol oherwydd bydd unrhyw strategaeth gynhwysfawr sy'n canolbwyntio go iawn ar ddiodefwyr yn cynnwys sawl math gwahanol o gefnogaeth (e.e. eirioli, cwnsela, cyngor am gyfiawnder troseddol, cymorth ymarfero gyda materion tai neu fudd-daliadau, sylw meddygol, ac ati), a'r gefnogaeth honno'n cael ei rhoi mewn lleoliadau amrywiol (e.e. yn y gymuned, swyddfeydd heddlu, lleoliadau meddygol), gan wahanol bobl (e.e. cynghorwyr trais domestig annibynnol neu gynghorwyr trais rhywiol annibynnol, gweithwyr cymorth arbenigol, cwnselwyr, heddlu arbenigol, archwilwyr meddygol fforensig, ac ati). Gan hynny, mae gan nifer o asiantaethau gyfraniad i'w wneud, gan gynnwys asiantaethau anstatudol sy'n cynrychioli 'llais y dioddefwr' (h.y. anghenion a phryderon unigryw y dioddefwr unigol).⁹

⁹ 'Multi-agency approaches are necessary because any comprehensive strategy that is truly victim-focussed will include many types of support (e.g. advocacy, counselling, criminal justice advice, practical assistance with

Mae cynadleddau amlasiantaeth asesu risg yn ffordd o weithio ar y cyd sydd fel arfer yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r heddlu, y meysydd iechyd a thai, gwasanaethau cymdeithasol a chyrrff anllywodraethol i rannu gwybodaeth am yr achosion sy'n achosi'r risg uchaf yn eu tyb hwy. Dechreuodd y cynadleddau hyn yng Nghaerdydd yn 2003, ac maent bellach yn gyffredin drwy'r DU gyfan. Yn ôl yr elusen Safe Lives (2014):

housing or benefits, medical attention, etc.), offered in varied locations (e.g., community-based, police, medical), by different personnel (e.g. IDVAs [independent domestic violence advisers] or ISVAs [independent sexual violence advisers], specialist support workers, counsellors, specialist police, forensic medical examiners, etc.) Thus many agencies have a role to play, including non-statutory agencies that represent the 'victim's voice' (i.e., the individual victim's unique needs and concerns).'

Cyfarfod yw cynhadledd amlasiantaeth asesu risg lle caiff gwybodaeth ei rhannu am yr achosion o gam-drin domestig sy'n achosi'r risg uchaf, a hynny rhwng cynrychiolwyr yr heddlu lleol, y sector iechyd, gwasanaethau amddiffyn plant, ymarferwyr ym maes tai, Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol, swyddogion prawf ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Ar ôl rhannu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ganddynt am ddiodefwr, bydd y cynrychiolwyr yn trafod opsiynau ar gyfer gwella diogelwch y diodefwr gan droi'r rhain yn gynllun gweithredu wedi'i gydlynu. Prif bwyslais y cyfarfod yw diogelu'r oedolyn sy'n dioddef.¹⁰

Cymysg yw'r sylfaen dystiolaeth o blaid y cynadleddau hyn. Canfu gwaith ymchwil cynradd cynnar a wnaed yn 2006 nad oedd bron i ddau draean o ddiodefwr yn profi trais neu gam-drin dilynol ar ôl y gynhadledd, yn ôl yr adroddiadau am ddiodefwr a ddaeth i law'r heddlu (Robinson, 2006). Fodd bynnag, mae'r ymchwil hwn wedi'i feirniadu, gan y gall fod rhesymau eraill pam nad yw goroeswyr yn rhoi gwybod eu bod wedi dioddef eto, ar wahân i'r posibilrwydd y gallai'r cam-drin domestig fod wedi dod i ben. Ceir rhai pryderon am y cynadleddau. Yn benodol, canfu adolygiad o Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol yn Llundain fod y cynadleddau'n aml yn diystyru cydsyniad goroeswyr wrth atgyfeirio ac yn y modd y byddant yn gweithio (Coy a Kelly, 2011). Mae Maxwell a Robinson (2013: 11-23) yn dadlau bod arwyddion y gall y cynadleddau fod yn effeithiol, ond nid oes sylfaen dystiolaeth ddibynadwy hyd yma o'u plaid.

Mae galwadau cynadledda am gam-drin domestig yn gweithio mewn ffordd debyg i gynadleddau amlasiantaeth asesu risg, ond maent yn llai cyffredin o lawer, ac mae rhai wedi stopio cael eu defnyddio oherwydd prinder tystiolaeth. Mae'r galwadau cynadledda'n trafod diodefwr risg is na fydd yn cael sylw yn y cynadleddau amlasiantaeth, ac felly maent yn gysylltiedig â dull ataliol o weithio. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth am ba mor effeithiol ydynt, er bod yr ymchwil sydd ar gael yn awgrymu eu bod yn ymyriadau addawol (er nad yw hyn wedi'i brofi ddigon) (Robinson et al., 2012). Mae'r galwadau cynadledda'n cael eu cynnal ar yr un pryd bob wythnos ymhlith asiantaethau mewn rhanbarth penodol, ac mae ganddynt i gyd gronfa ddata o wybodaeth y maent yn ei rhannu am ddiodefwr a chyflawnwyr.

Mae'r rhaglen Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS) yn un o'r cynlluniau gwybodaeth ac atgyfeirio y ceir y dystiolaeth orau o'i blaid, ac mae'n golygu cydweithio rhwng sefydliadau gofal sylfaenol a sefydliadau'r trydydd sector, gan leoli addysgwyr sy'n

¹⁰ 'A MARAC is a meeting where information is shared on the highest risk domestic abuse cases between representatives of local police, health, child protection, housing practitioners, Independent Domestic Violence Advisors (IDVAs), probation and other specialists from the statutory and voluntary sectors. After sharing all relevant information they have about a victim, the representatives discuss options for increasing the safety of the victim and turn these into a co-ordinated action plan. The primary focus of the MARAC is to safeguard the adult victim.'

eirioli mewn gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol lleol, gyda chysylltiad rhwng hynny â phractisau meddygon teulu (IRIS, 2012). Ceir tystiolaeth hefyd bod Model Caerdydd ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn adrannau achosion brys, yr heddlu, a rhanddeiliaid eraill yn ffordd effeithiol o atal anafiadau drwy drais yn gyffredinol (Florence et al., 2011).

Eirioli dros ddiodefwyr

Ceir tystiolaeth gref o rymuso diodefwyr drwy wasanaethau eirioli annibynnol, a'r rheini'n cael eu cynnal gan wasanaethau arbenigol sydd wedi'u lleoli mewn llochesi neu yn y gymuned, yn annibynnol ar y wladwriaeth. Mae Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol yn un enghraifft o wasanaethau o'r fath. Gweithwyr proffesiynol yw Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol ac eiriolwyr eraill. Gallant gael eu lleoli gyda'r heddlu, neu gallant weithio gyda'r llysoedd neu mewn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau tai neu wasanaethau gofal cymdeithasol. Hwylfydd prif gyswllt diodefwyr a goroeswyr, gan eu helpu i ymwneud â'r sectorau gwahanol, eu cyfeirio at wasanaethau cymorth, a bod yn gynrychiolydd iddynt yn y cynadleddau amlasiantaeth. Dechreuodd gwasanaethu eirioli a chymorth cymunedol mewn llochesi yn y 1960au, cyn iddynt gael eu hehangu wedyn i helpu diodefwyr nad oeddent wedi'u lleoli mewn llochesi.

Gwelwyd bod goroeswyr yn gwerthfawrogi gwaith y Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol, a chanfu un adolygiad nad oedd yn academaidd eu bod yn lleihau'n sylweddol y risg y bydd pobl yn diodeff eto (Howarth et al., 2009). Canfu gwerthusiad cenedlaethol o waith y Cynghorwyr i gam-drin stopio'n llwyr, neu ddod yn agos iawn at stopio'n llwyr, mewn 57% o'r achosion ar ôl i bobl gael cymorth gan Gynghorydd (Howarth et al., 2009). Adlewyrchir cryfder y dystiolaeth yn argymhellion NICE, sy'n cynnwys Argymhelliad 12: 'Darparu cyngor, gwasanaeth eirioli a chefnogaeth arbenigol fel rhan o lwybr atgyfeirio cynhwysfawr'¹¹ (2014).

Mae corff sylweddol o ymchwil wedi edrych ar ddarpariaeth cyngor a chefnogaeth arbenigol i ddiodefwyr trais domestig yn y DU, a hwnnw'n tynnu ar waith a wnaed yn yr Unol Daleithiau yn sôn am fanteision eirioli dros fenywod mewn lleoliadau cymunedol¹² (Robinson et al., 2012).

Er mwyn i'r Cynghorwyr fod yn effeithiol, mae angen gwasanaethau cymorth cysylltiedig yn lleol, a'r rheini yn eu tro yn dibynnu ar gael cyllid rheolaidd a chyson. Gallai heriau effeithlonrwydd lleol hefyd amharu ar allu'r Cynghorwyr i ymwneud â'r cynadleddau

¹¹ 'Providing specialist advice, advocacy and support as part of a comprehensive referral pathway'

¹² 'A substantial body of research has investigated the provision of specialist advice and support to victims of domestic violence in the UK, which draws on work conducted in the US pointing to the benefits of providing advocacy to women in community-based settings'

amlasiantaeth, ac mae hynny'n cyfrannu at ddarparu gwasanaethau anghyson. Fel yn achos gwasanaethau eraill, mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym y gall fod yn anodd cael cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau'r Cynghorwyr. Yn aml, ni fydd cyllid digonol ar gael i wneud gwaith gweinyddol, er mor bwysig yw hynny wrth gadw cofnodion, yn enwedig pan y gallai achos goroeswr fynd i'r llys.

Ffactor sy'n cymhlethu pethau wrth edrych ar y dystiolaeth o blaid gwasanaethau eirioli yw eu bod yn aml yn cael eu darparu fel rhan o wasanaethau niferus, ochr yn ochr â darpariaeth llochesi. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd datgysylltu'r achos a'r effaith, gan gofio mai prin yw'r adegau pan fydd ymyriadau'n cael eu darparu ar wahân. Mae rhanddeiliaid serch hynny'n gwerthfawrogi rôl y Cynghorwyr a gwasanaethau eirioli eraill, a theimlir eu bod yn ymyriad effeithiol iawn os oes digon o adnoddau ar gael ar eu cyfer.

Y system cyfiawnder troseddol

Er bod cyfiawnder troseddol yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl i Lywodraeth y DU, mae'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol ehangach yn gwneud gwaith pwysig wrth ddarparu ymyriadau penodol ym maes cam-drin domestig sy'n targedu'r cyflawnwr. Nid yw cam-drin domestig yn drosedd sy'n cael ei henwi yn y gyfraith, ond gellir erlyn cyflawnwyr am amryw o droseddau fel ymosod cyffredin, aflonyddu, neu'r drosedd newydd, rheolaeth drwy orfodaeth (Robinson, 2017). Ers y 1970au, mae'r modd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn ymdrin â cham-drin domestig wedi newid yn raddol o geisio cynnal undod parau priod i weithio drwy ymyrryd, a hynny wedi'i seilio ar fesur lefel y risg y mae'r dioddefwr yn ei hwynebu (Robinson, 2017). Ceir tystiolaeth bod arestio a mathau eraill o weithredu pendant gan y system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithiol wrth atal rhagor o drais na dulliau sy'n gochel ymyrryd neu ddulliau anffurfiol o weithio (Maxwell a Robinson, 2014). Mae dull diweddaraf y system cyfiawnder troseddol wedi'i seilio ar gydweithio, yn aml yng nghyd-destun Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, gyda'r heddlu'n cyfrannu'n sylweddol at gynlluniau amlasiantaethol fel cynadleddau amlasiantaeth asesu risg.

Ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y cyflawnwr

Mae canllawiau NICE yn cydnabod pwysigrwydd cyfuno ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y dioddefwyr a rhai sy'n rhoi pwyslais ar y cyflawnwr. Maent yn argymhell y dylid comisiynu ymyriadau wedi'u hachredu sydd wedi'u teilwra ar gyfer y rheini sy'n cyflawni trais domestig (NICE, 2014). Maent yn argymhell creu cysylltiadau rhwng gwasanaethau i gyflawnwyr ar y naill law, a'r gwasanaethau sy'n rhoi cefnogaeth arbenigol i dioddefwyr ar y llaw arall. Gellir gwneud hyn, er enghraifft, drwy greu cysylltiad rhwng yr asesiad parhaus o risg y cyflawnwr a gwaith cynllunio i sicrhau diogelwch y dioddefwr (NICE, 2014).

Mae rhaglenni peilot diweddar wedi datblygu a phrofi dull sy'n canolbwyntio ar y cyflawnwr, gan gynnwys Prosiect Mirabal, Prosiect Drive, yr Adnodd Adnabod Cyflawnwyr sy'n Flaenoriaeth (PPIT), a chynllun peilot ymyriad cynnar CLEAR, Newid sy'n Para, yn y de. Dechreuodd prosiect tair blynedd Drive yn 2016 ac mae'n golygu gweithio'n bersonol gyda'r cyflawnwyr sy'n achosi'r risg uchaf yn ôl y cynadleddau amlasiantaeth. Maent yn rhoi ystod o gymorth ac yn 'tarfu' i leihau troseddu (Robinson, 2017). Datblygwyd y PPIT yn 2015 i helpu'r asiantaethau sy'n gweithio ym maes gwasanaethau cam-drin domestig i ganfod y cyflawnwyr sy'n achosi'r risg uchaf a hwyluso gweithio amlasiantaethol. Mae ymarferwyr wedi dweud bod y PPIT yn ddefnyddiol wrth 'greu dull rhagweithiol ac ataliol o ganfod cyflawnwyr a thorri cylch cam-drin'¹³ (Robinson a Clancy, 2017: 6).

Roedd Prosiect Mirabal, sef rhaglen ymchwil ar raddfa fawr, yn ymchwilio i ba raddau y mae rhaglenni i gyflawnwyr trais domestig yn lleihau trais ac yn gwella diogelwch menywod a phlant. Canfu'r prosiect fod mwyafrif y menywod dan sylw wedi dweud bod y trais corfforol a rhywiol wedi lleihau, neu wedi dod i ben yn llwyr, ar ôl i gyflawnwyr gwblhau'r rhaglenni (Kelly a Westmarland, 2015).

Awgrymodd rhai goroeswyr ei bod yn anodd i gyflawnwyr gael cymorth, gyda hwnnw ond yn cael ei roi ar ôl gwneud ceisiadau niferus. Pan oedd cymorth ar gael, roedd yn anodd darbwyllo cyflawnwyr i fanteisio arno. Dyma fwch o bwys yng Nghymru, gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn canfod mai dim ond 20% o sefydliadau sy'n gallu rhoi 'gwasanaethau priodol ar gyfer cyflawnwyr' (Swyddfa Archwilio Cymru, 2019: 29). Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi canllawiau a chefnogaeth i dreialu ymyriadau, er bod rhanddeiliaid wedi dadlau bod yr adnoddau a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer yr ymyriadau hyn yn bwysicach.

Addysg a hyfforddiant

Mae'r Ddeddf yn pwysleisio bod addysg yn hollbwysig fel modd sylfaenol o atal cam-drin domestig. Mae adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn rhannu addysg yn dri phrif faes: codi ymwybyddiaeth y cyhoedd; ymgorffori cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn addysg orfodol; a hyfforddi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, gyda thystiolaeth ryngwladol yn sail i'r rheini. Mae eu hymgyrch fwyaf diweddar yn targedu rheolaeth drwy orfodaeth mewn perthnasau, a hynny o dan y faner 'Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn' (Llywodraeth Cymru, 2019a). Mae'r dystiolaeth ym maes iechyd cyhoeddus yn awgrymu y gall ymgyrchoedd arwain at newid ymddygiad fel rhan o gyfres o gamau eraill. Maent yn fwyaf tebygol o fod yn effeithiol wrth dargedu ymddygiadau untro, yn

¹³ 'engendering a proactive and preventative approach to identify perpetrators and break the cycle of abuse'

hytrach nag arferion (h.y. annog dioddefwr i ffonio llinell gymorth, yn hytrach nag achosi i'r cyflawnwr roi'r gorau i gam-drin), a gallai hyn awgrymu meysydd i ganolbwyntio arnynt fel rhan o ymgyrchoedd yn y dyfodol (Wakefield et al., 2010).

Er ei bod yn anodd creu cysylltiad rhwng rhaglenni addysg mewn ysgolion a digwyddiadau cam-drin domestig yn y dyfodol, ceir tystiolaeth i awgrymu bod addysg ym maes cydraddoldeb rhywiol, perthnasau iach a pharch yn gallu newid agweddau a chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl ifanc o gam-drin domestig (Hester a Westmarland, 2005). Efallai mai cynlluniau ysgol gyfan sy'n cael eu cynnal dros gyfres o sesiynau fydd y mwyaf effeithiol, yn hytrach na chynlluniau untro (Robinson et al., 2012).

Mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod hyfforddi darparwyr gwasanaeth ym mhob sector perthnasol i ddelio â digwyddiadau cam-drin domestig yn gwella'u gallu i adnabod a helpu dioddefwyr (Robinson et al., 2012). Gallai hyn hefyd helpu darparwyr gwasanaethau i ymyrryd mewn ffordd effeithiol a diogel gyda chyflawnwyr. Yn ôl astudiaeth a ganolbwyntiai ar iechyd, teimlai dros dri chwarter y nyrsys na allent drafod cam-drin domestig â chleifion, am resymau a oedd yn cynnwys ofni tramgwyddo a diffyg hunanhyder (Keeling, 2008). Dangoswyd bod rhai rhaglenni adnabod ac atgyfeirio sy'n rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i staff wedi bod yn effeithiol ac yn gost-effeithiol, fel model IRIS a drafodwyd uchod (Y Sefydliad Iechyd, 2010).

Plant a Cham-drin Domestig

Mae tua un ym mhob pump o blant yn y DU wedi dod i gyswllt â cham-drin domestig, a dywedodd 16% o oedolion yng Nghymru iddynt gael eu magu mewn tŷ lle digwyddai cam-drin domestig (NSPCC, 2019). Dyma brofiad niweidiol yn ystod plentyndod, a gall arwain at ganlyniadau gwael i blant, gan gynnwys canlyniadau iechyd meddwl niweidiol ac ymddygiad heriol. Bydd plant sy'n profi cam-drin domestig fel arfer yn cael profiadau niweidiol niferus, a hynny'n cymhlethu ac yn gwaethygu'r niwed y mae cam-drin domestig yn ei achosi. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod 'byw gyda cham-drin domestig wastad yn niweidiol i blant'¹⁴ (Sidebotham et al., 2016: 77), a bod plant yn fwy tebygol o dderbyn gofal pan fydd un o'r rhieni neu'r ddau yn profi cam-drin domestig (Hodges a Bristow, 2019). Mae'r dystiolaeth o Adolygiadau Achosion Difrifol yn Lloegr, sy'n cael eu cynnal pan fydd plentyn wedi marw neu wedi'i anafu'n ddifrifol, yn awgrymu bod cam-drin domestig yn ffactor risg difrifol, yn enwedig pan fydd rheolaeth drwy orfodaeth yn bresennol hefyd. Roedd cam-drin domestig yn bresennol mewn 54% o'r Adolygiadau Achosion Difrifol (Sidebotham et al., 2016: 75). At hynny, mae'r adroddiad hwn yn cydnabod y gellir teimlo effeithiau rheolaeth drwy orfodaeth a mathau eraill o gam-drin domestig ymhell cyn i ddigwyddiadau gael eu cofnodi, ac y byddai

¹⁴ 'living with domestic abuse is always harmful to children'

model gofal mwy ataliol, a hwnnw'n ymyrryd mwy, yn fwy llwyddiannus wrth atal niwed (Sidebotham et al., 2016: 82).

Mae'r Ddeddf yn cydnabod plant fel dioddefwyr cam-drin domestig, ac adlewyrchir hyn yn Strategaeth Genedlaethol 2016-2021, sy'n galw trais a cham-drin domestig yn y 'fater amddiffyn plant' ac y 'dylid ymdrin ag ef gan ddefnyddio'r gweithdrefnau diogelu perthnasol', gan gynnwys camau ataliol (Llywodraeth Cymru, 2016, 12). Rydym wedi clywed nad yw'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion plant, fel goroeswyr cam-drin domestig a thystion iddo, yn gyson drwy Gymru, ac mae ymchwil gan Cymorth i Ferched Cymru yn cadarnhau hyn (Cymorth i Ferched Cymru, 2019b). Mae dadansoddiad a gynhaliwyd gan un grŵp o randdeiliaid yn awgrymu nad yw mwyafrif y strategaethau lleol yn cynllunio i ddarparu gwasanaethau adfer a chefnogi digonol i blant a phobl ifanc, ac nid yw rhai ohonynt yn crybwyll plant neu bobl ifanc o gwbl. Mae hyn yn awgrymu y gall fod angen pwysleisio pwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy amlwg mewn strategaethau ym maes trais a cham-drin domestig, ac wrth gomisiynu gwasanaethau.

Mae goroeswyr hefyd wedi galw am gymorth pan fydd ganddynt deuluoedd ifanc, yn enwedig pan fyddant mewn lloches. Gall rhai goroeswyr fod yn treulio'u holl amser gyda'u plant, ac efallai na fyddant yn teimlo'u bod yn gallu dangos eu teimladau na phrosesu eu profiadau tra bydd y plant yn eu cwmni. Yng nghyfarfod bwrdd crwn Llywodraeth Cymru i oroeswyr, awgrymwyd y gallai'r gefnogaeth fod ar ffurf gofal plant, er mwyn i hyn fod yn bosibl. Awgrymwyd hefyd y dylid darparu digon o deganau a chyfleoedd chwarae i blant mewn llochesi.

Sylwadau rhanddeiliaid

Yn ogystal ag adolygu'r dystiolaeth am ymyriadau, roeddem am ystyried sut y mae'r ffactorau systemig sy'n dylanwadu ar ba mor effeithiol ydynt wedi newid yn sgil gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a'r ddeddfwriaeth a seiliwyd ar y gwaith hwnnw. I wneud hyn, cynhaliodd y Ganolfan ddigwyddiad bwrdd crwn ym mis Mehefin 2019, a hwnnw'n dwyn ynghyd y cynghorwyr a'r cydlynwyr trais a cham-drin domestig a swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn canfod beth yw'r heriau wrth roi deddfwriaeth trais a cham-drin domestig ar waith, beth yw effeithiau'r ddeddfwriaeth hyd yma, a sut y gellir troi gweledigaeth y Ddeddf yn realiti i dioddefwyr a goroeswyr. Ar ôl hynny, cynhaliodd y Ganolfan gyfres o sgyrsgiau â rhanddeiliaid cenedlaethol a swyddogion am yr un pwnc, gan orffen â chyfarfod bwrdd crwn â rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol ym mis Mehefin 2020. Yn fras, roedd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar yr heriau llywodraethu wrth roi'r ddeddfwriaeth ar waith, ynghyd ag amlygu arferion da. Ar sail hyn, yn ogystal ag ar sail y dystiolaeth ymchwil ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, mae'r adran hon yn ystyried sut y mae'r Ddeddf yn

cael ei rhoi ar waith. Mae deall hyn yn hanfodol er mwyn deall pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu – a darpariaeth llochesi'n enwedig.

Mae'r Ddeddf wedi arwain at newidiadau cadarnhaol, yn enwedig wrth godi ymwybyddiaeth a chanolbwyntio sylw pobl ar drais a cham-drin domestig. Ar yr un pryd, mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau, ac mae rhai sefydliadau wedi'i chael yn anodd ateb y galw hwnnw. Mae nifer o randdeiliaid wedi mynegi'r farn bod y Ddeddf wedi'i rhoi ar waith yn arafach na'r hyn a obeithiwyd. Mae'r Ddeddf wedi rhoi'r gallu i awdurdodau lleol wneud cam-drin domestig yn rhan o gyllid a darpariaeth graidd, ac wedi arwain at drefniadau arloesol, er nad yw'r Ddeddf ynddi'i hun yn darparu mwy o gyllid. Mae rhai ardaloedd wedi dod â gwahanol ffrydiau cyllid ynghyd i gomisiynu gwasanaethau cydgysylltiedig, ac mae hynny hefyd yn rhoi mwy o sefydlogrwydd ariannol hirdymor o'i gymharu ag ansicrwydd o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae'r Ddeddf wedi annog pobl i ganolbwyntio ar waith ataliol, ond nid yw hyn wedi'i roi ar waith yn llawn hyd yma. Ceir amrywiaeth sylweddol rhwng ac o fewn y gwahanol ranbarthau o ran eu cynnydd yn rhoi gweledigaeth y Ddeddf ar waith. Ceir hefyd broblemau wrth fonitro i ba raddau y cydymffurfir â'r dyletswyddau statudol, ac mae'r sefyllfa'n amrywio'n sylweddol drwy Gymru.

Llywodraethu, goruchwyllo a chydweithio

Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym bod datblygu strategaethau rhanbarthol wedi bod yn gam cadarnhaol ac wedi helpu pobl i ganolbwyntio ar drais a cham-drin domestig. Er mwyn cyflawni potensial y strategaethau rhanbarthol, fodd bynnag, mae angen llywodraethu rhanbarthol mwy effeithiol i gyd-fynd â hwy. Ar hyn o bryd, mae strategaethau rhanbarthol yn dibynnu ar barodrwydd y rheini sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol i gydlynu a chydweithio. Mae'r sylw y mae uwch arweinwyr yn ei roi i drais a cham-drin domestig yn dibynnu ar faint o flaenoriaeth yw hynny iddynt, neu a yw'n cael ei gydnabod yn bwnc sy'n gysylltiedig â phroblemau eraill a blaenoriaethau eraill i'r gwasanaethau rhanbarthol (fel diogelu a diogelwch cymunedol). Ar hyn o bryd, mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y prosesau llywodraethu a chomisiynu rhanbarthol, neu fod angen iddynt 'wthio' u hunain' i fod yn rhan o'r trafodaethau.

Nodwyd bod llywodraethu rhanbarthol yn her allweddol, ond gan gydnabod nad oes ateb syml i hyn, gan fod hynny'n broblem mewn meysydd polisi eraill hefyd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod angen mwy o graffu ar weithio rhanbarthol. Fel yn achos y strategaethau rhanbarthol, mae sefydlu strwythurau rhanbarthol, ac yn enwedig y byrddau trais a cham-drin domestig, wedi bod yn gamau cadarnhaol i fwrw'r agenda trais a cham-drin domestig yn ei blaen. Mae byrddau ac is-grwpiau rhanbarthol wedi galluogi rhywfaint o weithio mewn partneriaeth, gan rannu gwybodaeth ac arferion da. Fodd bynnag, mae gweithio rhanbarthol effeithiol yn dibynnu ar gydweithio gan uwch arweinwyr ar draws ffiniau sefydliadol. Os na cheir hyn, nid oes dull effeithiol ar hyn o bryd o oruchwyllo, cefnogi na gorfodi cydweithio

rhanbarthol. Mae hyn yn creu rhwystrau wrth roi polisiau ar waith, yn enwedig mewn rhanbarthau lle ceir nifer o bartneriaid awdurdodau lleol. Nid yw enghreifftiau o arferion da, fel canolfannau cam-drin domestig sy'n hwyluso cydweithio, yn gyffredin drwy Gymru i gyd.

Mae rhai o'r heriau a ganfuwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2012 yn dal i fodoli. Cafwyd adroddiadau nad oedd gan bartneriaid o bwys fawr o gysylltiad â'r agenda a'r weledigaeth ar gyfer trais a cham-drin domestig. Nid yw arweinwyr yn y sector cyhoeddus yn ymrwymo digon i'r agenda, gan gynnwys arweinwyr llywodraeth leol a byrddau iechyd, sy'n groes i ymrwymiad a brwdfrydedd staff rheng flaen. Fel y dywedodd un cyfranogwr,

Mae gennym ddarn arloesol o ddeddfwriaeth yng Nghymru, ond nid oes gennym yr ewyllys ymhlith arweinwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd i'w roi ar waith¹⁵ (cyfarfod bwrdd crwn, cyfranogwr).

Awgrymwyd bod y Dangosyddion Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2019c) yn adnodd defnyddiol i sicrhau mwy o ymrwymiad gan arweinwyr yn y sector cyhoeddus. Awgrymwyd hefyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau bod blaenoriaethau'r Byrddau Trais a Cham-drin Domestig Rhanbarthol yn cyd-fynd â'r Ddeddf. Gallai hyn fod drwy brosesau goruchwylio ffurfiol y Byrddau neu drwy ddull 'meddal' o weithio. Ar hyn o bryd, mae Cynghorwyr Rhanbarthol yn defnyddio llawer o ddulliau gweithio 'meddal' i geisio dylanwadu ar bobl eraill i weithredu. Mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau mai dyma sydd i gyfrif am yr amrywio rhanbarthol, gan y bydd natur y gwahanol Fyrddau Ranbarthol yn penderfynu faint o 'bŵer meddal' y gellir ei ddefnyddio. Gall cyfansoddiad y Byrddau Rhanbarthol fod yn annelwig, ac mae'r sefyllfa'n amrywio o ranbarth i ranbarth, sy'n peri rhwystredigaeth i rai rhanddeiliaid.

Mae rhanddeiliaid wedi dadlau'n gyson y gellir datrys y problemau hyn drwy drefniadau atebolrwydd cryfach. Gallai rhoi rôl oruchwylio i Lywodraeth Cymru neu'r Cynghorwyr Cenedlaethol, a allai olygu ystyried defnyddio dulliau gorfodi posibl, helpu i greu proses lywodraethu a chomisiynu gryfach. At hynny, gallai'r Cynghorwyr Cenedlaethol fod yn amlycach ac yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau bod arweinwyr y sector cyhoeddus yn ymrwymo i'r agenda, ac wrth ddwyn arweinwyr i gyfrif. Gallai'r Cynghorwyr Cenedlaethol a Rhanbarthol ymwneud mwy â'i gilydd, a gallai'r Cynghorwyr Cenedlaethol a rhanddeiliaid eraill ymwneud mwy â'i gilydd. Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym bod diffyg cyfeiriad ar lefel genedlaethol. Nid yw'r canllawiau ar gyfer comisiynu, er enghraifft, wastad yn cael eu dilyn yn gyson o'r naill ranbarth i'r llall, sy'n cyfyngu'r modd y maent yn cael eu defnyddio ac yn arwain at normau gwahanol mewn gwahanol ranbarthau. Mae darparwyr gwasanaethau

¹⁵ 'We have a ground-breaking piece of legislation in Wales, but we don't have the leadership will at a local authority and health board level to deliver it'

wedi dweud wrthym y byddai dull mwy cyson gyda mwy o oruchwyllo ar lefel genedlaethol yn arwain at wasanaeth mwy cyson a gwell ansawdd wrth ddarparu gofal.

Cyllido gwasanaethau

Mae cyllido gwasanaethau trais a cham-drin domestig yn fater cymhleth, a hwnnw'n aml yn achosi dryswch. Mae'r darlun cyllido cyffredinol yn un tameidiog, gyda rhai gwasanaethau'n cael eu hariannu drwy gyfuniad o gyllid craidd a grantiau, a hynny gan gyrrff cyllido sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, yr heddlu, byrddau iechyd a'r trydydd sector, mewn gwahanol gyfuniadau (Swyddfa Archwilio Cymru, 2019: 33). Gall hyn ei gwneud hi'n anodd cadw llygad ar wariant penodol. Canfu ymchwil gan Swyddfa Archwilio Cymru (2019: 15) 'ddryswch sylweddol ar ran y rhai y cyfwelwyd â hwy ynglŷn â pha sefydliad yn union sy'n rhoi pa gymorth, i bwy a ble'. Mae rhanddeiliaid wedi dadlau y gall hyn arwain at anawsterau wrth fapio a chofnodi gwariant.

Mae angen sicrwydd cyllid, a chyllid cynaliadwy hirdymor, gan fod trefniadau cyllido o'r naill flwyddyn i'r llall yn rhwystr i ddull cydgysylltiedig a hirdymor o weithio, a hynny'n arwain at 'fynd a dod' mewn prosiectau ac ymhlith staff. Mae rhanddeiliaid wedi dadlau y gall hyn arwain at amserlenni hynod o dynn, afrealistig, wrth roi grantiau penodol. Mae rhai grantiau'n amodol ar gael eu defnyddio at ddibenion penodol, na fydd o bosibl yn cyd-fynd â'r anghenion a ddynodwyd neu flaenoriaethau strategol. Yn wir, yn ôl rhanddeiliaid, gall gweithio ar sail cylch cyllido blynyddol ei gwneud hi'n anodd cynllunio a chomisiynu gwasanaethau mewn ffordd strategol. Yn benodol, mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy anodd darparu gwasanaethau ar sail hirdymor. Er enghraifft, mae llawer o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau lloches yn cael ei ddyrannu o'r naill flwyddyn i'r llall. Yn ôl data gan y sector, mae'r galw yn dal yn fwy na'r cyflenwad ar gyfer y math hwn o ymyriad (Cymorth i Ferched Cymru, 2019). Er bod y trefniadau cyllido o'r naill flwyddyn i'r llall yn debyg i drefniadau eraill Llywodraeth Cymru a threfniadau mewn gwasanaethau cyhoeddus, gallai rhoi awgrym gwell o'r cyllid hirdymor tebygol helpu i leihau'r risg y bydd gwasanaethau'n dod i ben. Mae rhai awdurdodau lleol wedi ymrwmo i roi cyllid cynaliadwy dros nifer o flynyddoedd, ac mae rhanddeiliaid bron yn unfryd gytûn y byddai trefniant ariannu mwy hirdymor yn arwain at well gwasanaethau ym maes trais a cham-drin domestig, ac at fodel comisiynu mwy cynaliadwy. Awgrymodd un rhanddeiliad y gallai hyn fod yn debyg i'r grantiau Cefnogi Pobl sy'n cael eu rhoi dros nifer o flynyddoedd.

Cyfeiriodd rhanddeiliaid hefyd at broblemau wrth gynnal prosiectau arloesol neu wrth gyflwyno mathau penodol o ymyriadau a allai fod yn dibynnu ar gronfeydd penodol o arian. Cyllid cyfyngedig fydd i'r prosiectau hyn yn aml, ac ni fydd yn parhau ar ôl y cyfnod peilot. Mae gwasanaethau i gyflawnwyr yn un enghraifft o hyn. Mae'r cyllid ar hyn o bryd yn dod i ben, ac nid yw'n glir pa drefniadau fydd yn dilyn i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae rhanddeiliaid yn credu bod cysylltiad rhwng y problemau hyn a'r modd y caiff gwasanaethau

eu comisiynu. Ceir cronfeydd o arian sy'n gysylltiedig ag ymyriadau penodol, a hynny'n cyfyngu ar y gallu i wario arian yn hyblyg yn unol â'r anghenion.

Nid oes neb wedi gofyn i'r Ganolfan ystyried a yw'r trefniadau cyllido presennol yn ddigonol, ac nid yw wedi ceisio rhoi ateb pendant i'r cwestiwn hwn. Serch hynny, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu nad yw'r lefelau cyllid presennol yn ddigonol i ateb y galw ar hyn o bryd, a bu cwatogi sylweddol ar wariant yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r grant Cefnogi Pobl, sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau ym maes trais a cham-drin domestig, wedi gostwng £37m mewn termau real ers 2011-12 (Cymorth et al., 2019). Yn 2017-18, cafodd y sector trais a cham-drin domestig £8,947,707 o gyllid drwy'r grant Cefnogi Pobl. Serch hynny, amcangyfrifir bod cyfanswm y gost o ddarparu cymorth i oroeswyr mewn llochesi ac yn y gymuned yn £22,035,958 (Cymorth et al., 2019). Mae'r cynnydd ymddangosiadol yn y galw am wasanaethau ym maes trais a cham-drin domestig yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau. Mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr yn dangos y bu cynnydd graddol yn nifer y troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig a gafodd eu hadrodd i'r heddlu. Mae'n bosibl bod hyn yn arwydd o fwy o barodrwydd ymhlith goroeswyr i ymwneud â gwasanaethau swyddogol (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019). Mae data diweddaraf Cymorth i Ferched Cymru yn dangos bod atgyfeiriadau i rai mathau o ymyriadau yn cynyddu. Yn benodol, bu cynnydd o 32% yn yr atgyfeiriadau i gefnogaeth gymunedol yn 2017-18, o'i chymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol (Cymorth i Ferched Cymru, 2018b: 15).

Mae'r problemau wrth ddarparu gwasanaethau wedi arwain rhai cyrff comisiynu i fabwysiadu dull mwy 'cystadleuol' o dendro. Pryder o bwys yw y gall hyn arwain at gwtogi costau ac at ddirywiad yn ansawdd gwasanaethau. Rhoddir mwy o sylw i hyn isod. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi dadlau bod y model hwn yn golygu bod darparwyr gwasanaethau yn teimlo'u bod yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, yn hytrach nag yn bartneriaid posibl. Mae hynny'n amharu ar gydweithio a chydweithredu yn y sector.

Mae rhanddeiliaid, yn enwedig yn y maes llochesi, hefyd yn dadlau y gall dull cystadleuol o weithio danseilio darparwyr arbenigol sy'n gallu cynnig gwasanaethau o wir ansawdd, ond sydd angen cymorth ariannol digonol i wneud hynny.

Er bod y darlun cyllido'n gymhleth, mae rhai ymdrechion wedi'u gweud i fapio'r adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael. Serch hynny, nid yw'n glir a fydd hyn yn dod yn rhan o'r gwaith i geisio cydlynu neu ddefnyddio cyllid ac adnoddau'n strategol yn y dyfodol. Mae'n amlwg y bydd angen i bob rhan o'r sector ymrwymo am gyfnod hir i fynd i'r afael â'r broblem hon. Yn benodol, dylai cyrff cyllido asesu a ydynt yn cynnig lefel ddigonol neu gynaliadwy o adnoddau i alluogi gwasanaethau i roi gofal addas i bob goroeswr.

Comisiynu gwasanaethau

Mae'r gwaith comisiynu'n dameidiog, ac weithiau bydd wedi'i seilio ar arferion hanesyddol yn hytrach na'r angen lleol. Mae'r gwaith comisiynu hefyd yn anghyson drwy'r rhanbarthau, ac yn arwain at amrywio rhwng gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Oherwydd diffyg cydlynw rhwng rhanbarthau ac o'u mewn wrth gomisiynu gwasanaethau, mae risg bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio'n aneffeithlon, a bod cyfleoedd yn cael eu colli i ddysgu beth sy'n gweithio'n dda. Gan fod sefydliadau sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli yn rhannu cyfrifoldebau yn y maes trais a cham-drin domestig (er enghraifft, mae plismona'n fater sydd wedi'i gadw yn ôl i Lywodraeth y DU), dyma rwystr i gydweithio'n effeithiol yn y sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n creu rhwydwaith neu dull o ddwyn y Cynghorwyr Rhanbarthol ynghyd, a gallai hyn helpu yn hyn o beth.

Ceir canllawiau statudol bellach ynghylch comisiynu gwasanaethau (Llywodraeth Cymru, 2019b). Ond mae rhanddeiliaid wedi dadlau nad yw'r rhain yn cael eu gorfodi'n gyson ac nad oes digon o ddulliau atebolrwydd er mwyn i Lywodraeth Cymru ymateb pan na fyddant yn cael eu dilyn. At hynny, mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon nad yw darpariaeth gwasanaethau sylfaenol wedi'u cynnwys yn y canllawiau (er eu bod wedi'u cynnwys mewn dogfen wedi'i chyfeirio). Gan hynny, efallai fod awdurdodau comisiynu'n hepgor rhai gwasanaethau, neu efallai y byddant yn gwneud hynny yn y dyfodol. Gall y gofynion ar gyfer comisiynu amrywio o'r naill awdurdod i'r llall. O ran atebolrwydd, teimlad rhai rhanddeiliaid yw nad oes gan y Cynghorwyr Cenedlaethol ddigon o 'ddannedd' i orfodi'r canllawiau hyn. Mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau y dylid cael Comisiynydd Cenedlaethol yn lle'r Cynghorydd Cenedlaethol. Byddai gan hwnnw bŵer statudol i ddwyn comisiynwyr rhanbarthol i gyfrif am eu penderfyniadau ar wariant a darpariaeth. Roedd hyn yn un o argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Ond byddai'n gofyn am newid y Ddeddf. Yn gyffredinol, teimlir bod byrddau rhanbarthol, a'r system gomisiynu, yn dibynnu cymaint ar ewyllys da'r unigolion dan sylw ag y maent ar y gofynion statudol. Pan na fydd yr ewyllys da hwnnw'n bodoli, ni cheir dulliau strategol cyson o gomisiynu chwaith. Bydd angen arwain ar lefel genedlaethol i fynd i'r afael â hyn.

Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn benodol y dylid gwella'r broses o rannu data rhwng pob rhan o'r system trais a cham-drin domestig, ond mae hyn yn dal yn annigonol (Swyddfa Archwilio Cymru, 2019). Mae'r cyrff sy'n rhan o'r maes trais a cham-drin domestig yn casglu data mewn ffyrdd gwahanol ac at ddibenion gwahanol. Fel y dywedodd un cyfranogwr: 'mae diffyg set ddata gyson a fframwaith canlyniadau yn y maes trais a cham-drin domestig er mwyn rhoi sylfaen i waith ac ymateb i anghenion yn hyblyg'¹⁶. Er bod creu

¹⁶ '[there is a] lack of a consistent data set and outcomes framework across VAWDASV to inform and respond to need on a flexible basis'

strategaethau rhanbarthol wedi arwain at well dealltwriaeth o'r angen drwy waith mapio rhanbarthol a chynnal asesiadau o anghenion, mae cryn fylchau o hyd yn y wybodaeth am bwy y gwrthodir gwasanaethau iddynt, a phwy sydd heb gyrraedd y cam o ofyn am gymorth eto. Mae data'n aml yn cael eu casglu am eu bod ar gael yn hwylus, yn hytrach na'u bod wedi'u seilio ar yr hyn sy'n angenrheidiol i fod yn sail i ddarparu neu gomisiynu gwasanaethau. Mae anghysondebau wrth gasglu data a gwahanol ddisgwyliadau mewn gwahanol ranbarthau yn cynyddu'r gost o ddarparu gwasanaethau, ac mae'n rhoi baich gweinyddol mwy ar ddarparwyr gwasanaethau. Gan fod rhanbarthau'n rhoi adnoddau ar gyfer gwaith gweinyddol mewn ffyrdd gwahanol, mae rhai darparwyr gwasanaethau'n ei chael hi'n fwy anodd gweithio mewn rhai rhanbarthau. Mae'r dull anghyson o gasglu data a'r gwahanol ddisgwyliadau hefyd yn cynyddu'r gost o dendro, yn enwedig i ddarparwyr gwasanaethau llai eu maint. Gallai dull mwy cyson o gasglu data, ac o bosibl comisiynu ar sail canlyniadau, helpu wrth gymharu'r ddarpariaeth o'r naill ranbarth i'r llall. Byddai hyn o fydd i ddarparwyr gwasanaethau, ond byddai hefyd yn golygu ei bod yn haws cymharu gwahanol ymyriadau wrth edrych ar eu costau a'u hansawdd. Mae rhai rhanddeiliaid wedi cynnig creu un gyfres o ganlyniadau a fyddai'n sail i gasglu data a chomisiynu gwasanaethau. Yn y model hwn, byddai'r gwaith comisiynu wedi'i seilio ar ganlyniadau, a byddai'r gwasanaethau (gan gynnwys y rheini y tu allan i'r 'sector trais a cham-drin domestig' traddodiadol) yn cyflawni canlyniadau penodol y cytunwyd arnynt wrth eu comisiynu. Byddai hyn yn arwain at greu sefyllfa fwy cyson wrth gomisiynu.

Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym bod problemau difrifol ynghlwm wrth gomisiynu ar sail pris yn unig. Nid yw un darparwr gwasanaethau'n barod i gystadlu am nifer o gontractau gan nad yw'n teimlo bod ffordd ddiogel i ddarparu'r gwasanaeth am brisiau'r contractau hynny. Yn ôl rhanddeiliaid, gall toriadau mewn cyllid ac ymdrechion i sicrhau'r gwerth mwyaf drwy dendro gwasanaethau am bris isel fod yn wrthgynhyrchiol, nid yn unig o ran diogelwch goroeswyr, ond hefyd drwy gynyddu'r galw am wasanaethau fel gofal iechyd neu'r heddlu. At hynny, nid yw rhai contractau'n cwmpasu gwaith gweinyddol neu waith rheoli perfformiad (gan gynnwys perfformiad rheolwyr llinell), ac mae hynny'n cynyddu'r baich costau ar ddarparwyr gwasanaethau'n sylweddol, gan achosi cryn bryder iddynt. Cydnabyddir bod dilyn dull o gomisiynu sydd wedi'i seilio ar bris yn golygu mynd yn groes i'r canllawiau ar gyfer comisiynu, a gallai cynnwys timau caffael a chyfreithiol awdurdodau lleol yn y broses gomisiynu gyfrannu at fabwysiadu dull sy'n 'cwtogi costau'. Gallai mwy o ymwybyddiaeth o'r canllawiau a geiriad cryfach helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn, ond gallai system gyllido fwy hirdymor, ac un sy'n rhoi mwy o sicrwydd, hefyd helpu i liniaru rhai o'r pryderon.

Casgliad

Mae Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn rhoi sylfaen gyfreithiol ar gyfer cryfhau arferion da, a sicrhau arweinyddiaeth strategol a dull

ataliol o fynd i'r afael â cham-drin domestig. Fodd bynnag, bu'r broses o roi'r Ddeddf ar waith yn un araf, ac mae'r ddarpariaeth ym maes cam-drin domestig yn dal yn dameidiog drwy Gymru (Johnson, 2017; Swyddfa Archwilio Cymru, 2019). Mae'r system gomisiynu yn dal yn fylchog ac yn anghyson. Cyllid tymor byr sy'n cael ei roi, ac ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, nid yw'n ddigon i ateb y galw am wasanaethau ym maes trais a cham-drin domestig drwy Gymru.

Cymysg yw'r dystiolaeth o blaid gwahanol ymyriadau ym maes cam-drin domestig, ac mae'r materion moesegol a diogelwch niferus sy'n rhan annatod o weithio gyda phobl sy'n agored i niwed wedi cyfyngu ar y gwaith ymchwil sydd wedi'i wneud. Serch hynny, ceir tystiolaeth i gefnogi defnyddio rhai ymyriadau. Yn benodol, mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol a gwasanaethau eirioli annibynnol eraill yn gryf. Yn ogystal â phrosesau arferol gwasanaethau cyfiawnder troseddol, mae'r pwyslais a roddodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar weithredu ar nifer o lefelau a thrwy'r holl sector cyhoeddus yn dal yn berthnasol yng nghyd-destun Cymru. Seiliwyd hyn ar ddefnyddio arweinyddiaeth, addysg ac ymgyrchoedd cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth ac ysgogi newid diwylliannol, ochr yn ochr â deddfu i lywio ymateb y sector cyhoeddus, a buddsoddi mewn ymyriadau penodol. Ymhlith yr argymhellion penodol, mae defnyddio llochesi mewn ffordd addas fel llety dros dro; darparu gwasanaethau gwella diogelwch yn eang; cynnwys addysgu parhaus am berthnasau iach yn y cwricwlwm; gofyniad statudol i ymateb yn amlasiantaethol; hyfforddi'r holl weithwyr proffesiynol rheng flaen perthnasol ym maes cam-drin domestig; a sicrhau arweinyddiaeth strategol yn y maes.

Adlewyrchir yr argymhellion hyn yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru, sydd hefyd i fod i adlewyrchu elfennau o bwys yng Nghonfensiwn Istanbul (Llywodraeth Cymru 2016). Er bod y gyfres benodol o ymyriadau wedi'u cynnwys yn y Strategaeth, fodd bynnag, barn rhanddeiliaid yw bod problemau'n dal i fodoli wrth geisio rhoi rhai ymyriadau penodol ar waith yn effeithiol. Mae hyn yn arbennig o wir am ymyriadau sy'n canolbwyntio ar gyflawnwyr, cymorth iechyd meddwl, ac ymyriadau i blant a phobl ifanc. Ni fydd cyrff comisiynu wastad yn blaenoriaethu'r rhain, ac maent yn gofyn am adnoddau nad ydynt bob amser ar gael. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi dadlau bod angen gwell dull o gyflwyno darpariaeth sydd wedi'i seilio ar drawma wrth gomisiynu.

Mae tystiolaeth o'n cyfarfodydd bwrdd crwn yn dangos bod y Ddeddf wedi helpu i ganolbwyntio sylw pobl ar drais a cham-drin domestig. Yn benodol, mae strategaethau rhanbarthol wedi cael eu datblygu sydd wedi helpu mewn ffordd gadarnhaol wrth yrru'r ddeddfwriaeth yn ei blaen a'i rhoi ar waith. Serch hynny, mae rhai o'r prif heriau a welwyd cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn dal i fodoli. Mae diffyg cyllid hirdymor, a diffyg sicrwydd cyllid, yn broblem i ddarparwyr ac mae hyn yn effeithio ar drosiant staff ac ar y gallu i ddarparu rhai ymyriadau. Er bod hyn yn adlewyrchu model ariannu Llywodraeth Cymru, mae rhanddeiliaid wedi nodi bod cyllid yn cael ei warantu dros nifer o flynyddoedd mewn meysydd eraill, a bod hynny'n enghraifft o'r hyn y gellid ei wneud i ddatrys y broblem. Fel arall, mewn

rhai rhanbarthau, mae awdurdodau lleol wedi grwpio cyllid er mwyn ceisio sicrhau sefydlogrwydd.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y cyllid yn dal yn annigonol i ateb anghenion goroeswyr, ac er bod hyn yn waddol o'r cyfnod o gyni, mae rhai yn y sector wedi dadlau y gallai cynyddu cyllid i'r maes trais a cham-drin domestig leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill (Cymorth Cymru et al., 2019). Mae system gyllido gymhleth yn cymhlethu'r ymdrechion i ddiwygio'r maes, ac mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo bod y maes trais a cham-drin domestig yn dioddef gan ei fod yn cael ei ariannu gan amrywiaeth o asiantaethau sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli, gan gynnwys yr heddlu, y sector iechyd, a'r grant tai Cefnogi Pobl.

Mae'r sefyllfa gomisiynu yn dal yn dameidiog, a cheir pryderon am y broses a ddefnyddir i gomisiynu gwasanaethau mewn rhai rhanbarthau. Mae sefydlu strwythurau rhanbarthol wedi gwella'r sefyllfa hon – yn enwedig y byrddau trais a cham-drin domestig – ond mae cydweithio yn aml yn dibynnu ar ewyllys da cynrychiolwyr. Tan y bydd uwch arweinwyr sy'n rhan o strwythurau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn cydweithio'n effeithiol ar draws ffiniau sefydliadol, bydd y dulliau presennol sy'n rhoi deddfwriaeth trais a cham-drin domestig ar waith yn annigonol. Mae hyn yn creu rhwystrau wrth geisio rhoi'r deddfwriaeth ar waith, yn enwedig mewn rhanbarthau lle ceir niferoedd mwy o bartneriaid.

Bydd angen amser i ymateb i'r problemau hyn yn effeithiol. Nid yw'r her o gyflawni amcanion polisi drwy ddarpariaeth ranbarthol wedi'i chyfyngu i deddfwriaeth ym maes trais a cham-drin domestig. Mae'n amlwg y byddai dull atebolrwydd cryfach yn gam cyntaf defnyddiol, ond mae'n llai eglur pwy ddylai fod yn gyfrifol a sut y byddai'r dull hwn yn gweithio.

Cyfeiriadau

Babcock, J., Green, C., Robie, C. (2004). **Does batterers' treatment work? A meta-analytic review of domestic violence treatment.** *Clinical Psychology Review*. 23(8): 1023-1053. Codwyd o: [https://www.sciencedirect-com.abc.cardiff.ac.uk/science/article/pii/S0272735803001119](https://www.sciencedirect.com.abc.cardiff.ac.uk/science/article/pii/S0272735803001119)

Berry, V., Stanley, N., Radford, L., McCarry, M., Larkins, C. (2014). **Building Effective Responses: An Independent Review of Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Services in Wales.** Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Coy, M., Kelly, L. (2011). **Islands in the stream: an evaluation of four London independent domestic violence advocacy streams.** Codwyd o: <https://cwasu.org/resource/islands-in-the-stream-an-evaluation-of-four-london-independent-domestic-violence-advocacy-schemes/>

Cymorth Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymorth i Ferched Cymru. (2019). **Housing Matters: Welsh Budget 2020/21.** Codwyd o: <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/12/Housing-Matters-report-2019-Eng.pdf>

Cymorth i Ferched Cymru (2019b). **Children Matter: Children and young people experience violence and abuse too.** Codwyd o: <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Children-and-Young-People-participation-report-FINAL.pdf>

Cymorth i Ferched Cymru. (2018a). **Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cam-drin Domestig Arbenigol: Dogfen Gyflwyno.** (Fersiwn 5). Codwyd o https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2018/06/Welsh-Womens-Aid_Service-Standards_-Welsh.pdf

Cymorth i Ferched Cymru. (2018b). **Cyflwr y Sector: Adeiladu gwasanaethau arbenigol cynaliadwy yng Nghymru.** Codwyd o: <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/State-of-the-Sector-2018-Cym.pdf>

Cymorth i Ferched Cymru. (2019a). **Annual membership report: Data from specialist services in Wales 2018/19.** Codwyd o: <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Annual-Membership-Report-2018-19-FINAL.pdf>

Florence, C., Shepherd, J., Simon, T. (2011). **Effectiveness of anonymised information sharing and use in health service, policy and local government partnership for preventing violence related injury: experimental study and time series analysis.** Codwyd o: <https://doi.org/10.1136/bmj.d3313>

Freedom Programme (2020). **Freedom Programme information**. Codwyd o:
<https://freedomprogramme.co.uk/index.php>

Gracia, E., Herrero, J. (2006). **Acceptability of domestic violence against women in the European Union: a multilevel analysis**. J Epidemiol Community Health. 60: 123-129.
Codwyd o: 10.1136/jech.2005.036533

Hester, M., Westmarland, N. (2005). **Tackling domestic violence: Effective interventions and approaches**. Llundain: Astudiaeth Ymchwil y Swyddfa Gartref 290.

Hodges, H. Bristow, D. (2019). **Analysis of the factors contributing to the high rates of care in Wales**. Wales Centre for Public Policy. Codwyd o:
<https://www.wcpp.org.uk/publication/analysis-of-the-factors-contributing-to-the-high-rates-of-care-in-wales/>

Howarth, E., Stimpson, L., Barran, D., Robinson, A. (2009). **Safety in Numbers: A multisite evaluation of Independent Domestic Violence Advisor Services**.

Imkaan. (2016). **imkaan safe minimum practice standards: working with black and 'minority ethnic' women and girls**. Codwyd o:
https://drive.google.com/file/d/0B_MKSoEcCvQwY1FRdl82T0laUjg/view

IRIS. (2012). **IRIS- Identification and Referral to Improve Safety**. Codwyd o:
<http://www.irisdomesticviolence.org.uk/iris/>

Johnson, H. (2017). **A yw Deddf Trais yn erbyn Menywod (Cymru) 2015 yn gweithio?**
Codwyd o: <https://seneddymchwil.blog/2017/02/10/a-yw-deddf-trais-yn-erbyn-menywod-cymru-2015-yn-gweithio/>

Keeling, J. (2008). **Effective educational strategies**. Yn Keeling, J. and Mason, T. (goln.) Domestic Violence: A multiprofessional approach for healthcare practitioners. McGraw Hill: Open University Press.

Kelly, L. and Westmarland, N. (2015). **Domestic Violence Perpetrator Programmes: Steps Towards Change. Project Mirabal Final Report**. Codwyd o: https://www.nr-foundation.org.uk/downloads/Project_Mirabal-Final_report.pdf

Kirk, L., Terry, S., Lokuge, K., Watterson, J.L. (2017). **Effectiveness of secondary and tertiary prevention for violence against women in low and low-middle income countries: a systematic review**. BMC Public Health 17:622. Codwyd o:
<https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC5496243/>

Llywodraeth Cymru. (2015). **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**. Codwyd o: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/section/24/enacted/welsh>

Llywodraeth Cymru. (2016). **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2016 i 2021**. Codwyd o: <https://llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-strategaeth-2016-i-2021>

Llywodraeth Cymru. (2019a). **'Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn' - lansio ymgyrch newydd i helpu pobl sy'n cael eu rheoli o fewn perthynas**. Codwyd o: <https://llyw.cymru/nid-cariad-yw-hyn-rheolaeth-yw-hyn-lansio-ymgyrch-newydd-i-helpu-pobl-syn-cael-eu-rheoli-o-fewn>

Llywodraeth Cymru. (2019b). **Canllawiau statudol ar gyfer comisiynu gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru**. Codwyd o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/canllawiau-statudol-ar-gyfer-comisiynu-gwasanaethau-vawdasv-yng-nghymru.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2019c). **Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru**. Codwyd o: <https://llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-dangosyddion-cenedlaethol-ar-gyfer-cymru>

Maxwell, C. and Garner, J. (2012). **The effectiveness of criminal sanctions for intimate partner violence: A systematic review of 31 studies**. Codwyd o: https://www.researchgate.net/publication/262766907_The_effectiveness_of_criminal_sanctions_for_intimate_partner_violence_A_systematic_review_of_31_studies

Maxwell, C. D., and Robinson, A. L. (2013). **Can Interventions Reduce Recidivism and Re-victimization Following Adult Intimate Partner Violence Incidents?** Yn Carroll, L., Perez, M. M., a Taylor, R. M. The Evidence for Violence Prevention Across the Lifespan and Around the World. Forum on Global Violence Prevention: Institute of Medicine, National Academy of Sciences, Washington D.C. 76-86. Codwyd o: <http://iom.edu/Reports/2013/The-Evidence-for-Violence-Prevention-Across-the-Lifespan-and-Around-the-World.aspx>

Nerissa, S., Blakeborough, L., Sian, N. (2011). **Supporting high-risk victims of domestic violence: a review of multi-agency risk assessment conferences (MARACs): summary**. Codwyd o: <https://www.bl.uk/collection-items/supporting-highrisk-victims-of-domestic-violence-a-review-of-multiagency-risk-assessment-conferences-maracs-summary#>

NICE. (2014). **Domestic violence and abuse: multi-agency working. Public Health Guideline [PH50]**. Codwyd o: <https://www.nice.org.uk/guidance/ph50>

NSPCC. (2019). **Briefing for the joint CPG on Violence Against Women and Children and CPG on Children and Young People.** Codwyd o:
<https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/policy/briefing-joint-cross-party-group-children-young-people-violence-against-women-english.pdf>

Rape Crisis. (dim dyddiad). **Rape Crisis National Service Standards: Summary Information for Partners, Funders and Commissioners.** Codwyd o:
https://rapecrisis.org.uk/media/2162/rcnss_partners_final.pdf

Reducing the Risk of Domestic Abuse. (2019). **MARAC.** Codwyd o:
<https://www.reducingtherisk.org.uk/cms/content/marac>

Refuge. (2018). **Annual Report and Financial Statements 2017/2018.** Codwyd o:
<https://www.refuge.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/annual-report-2017-2018.pdf>

Respect. (2017). **The Respect Standard.** Trydydd Argraffiad. Codwyd o:
<http://respect.uk.net/wp-content/uploads/2017/02/Respect-Standard-15.11.17.pdf>

Robinson, A. (2006). **Reducing Repeat Victimization Among High-Risk Victims of Domestic Violence: The Benefits of a Coordinated Community Response in Cardiff, Wales.** Violence Against Women. 12(8): 761-788.

Robinson, A. (2017). **Domestic Violence and Abuse in the UK.** Yn Buzawa, E. a Buzawa, C. (goln.) Global Responses to Domestic Violence (pp.107-124). Springer.

Robinson, A. a Clancy, A. (2017). **New initiatives to tackle domestic violence using the Priority Perpetrator Identification Tool (PPIT).** Sefydliad Ymchwil Trosedd a Diogelwch Prifysgol Caerdydd. Codwyd o:
<https://orca.cf.ac.uk/107138/1/Robinson%20%26%20Clancy%20%282017%29%20New%20PPIT%20Initiatives%20for%20Tackling%20Domestic%20Abuse.pdf>

Robinson, A., Brisbane, J., Farrar, J., Hardy, P., Jones, B., Pickles, J., Shepherd, J. (2012). **The Welsh Government's proposed 'Ending Violence Against Women and Domestic Abuse (Wales) Bill': Recommendations from the Task and Finish Group. Final Report.**

Robinson, A., Maxwell, C. (2013). **Can Interventions Reduce Recidivism and Re-victimisation Following Adult Intimate Partner Violence?** Cynhadledd Gweledigaeth 2020 Caerdydd.

SafeLives. (2014). **Frequently asked questions: Multi-Agency Risk Assessment Conferences (MARAC).** Codwyd o:
<http://www.safelives.org.uk/sites/default/files/resources/MARAC%20FAQs%20General%20FINAL.pdf>

Sidebotham, P. et al. (2016). **Pathways to harm, pathways to protection: a triennial analysis of serious case reviews 2011 to 2014**. Yr Adran Addysg. Codwyd o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/533826/Triennial_Analysis_of_SCRs_2011-2014_-_Pathways_to_harm_and_protection.pdf

Snead, A., Bennett, V., Babcock, J. (2018). **Treatments that Work for Intimate Partner Violence: Beyond the Duluth Model**. Yn *New Frontiers in Offender Treatment: The Translation of Evidence-based Practices to Correctional Settings*. Goln. Jeglic, E. and Calkins, C.

Strickland, P. ac Allen, G. (2018). **Domestic violence in England and Wales**. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. Codwyd o: <http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/SN06337/SN06337.pdf>

Swyddfa Archwilio Cymru. (2016). **Diogelwch cymunedol yng Nghymru**. Codwyd o: <https://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/Community-Safety-2016-Cymraeg.pdf>

Swyddfa Archwilio Cymru. (2019). **Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith**. Codwyd o: https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/VAWDASV_cym.pdf

Trabold, N., McMahon, J., Alsobrooks, S., Whitney, S., Mittal, M. (2018). **A Systematic Review of Intimate Partner Violence Interventions: State of the Field and Implications for Practitioners**. *Trauma, Violence, & Abuse*. 1-15. Codwyd o: <https://journals.sagepub.com/doi/10.1177/1524838018767934>

Vallely, C., Robinson, A. L., Burton, M., Tregida, J. (2005). **Evaluation of Domestic Violence Pilot Sites at Caerphilly (Gwent) and Croydon**. Llundain: Gwasanaeth Eryln y Goron.

Wakefield, M., Loken, B. a Hornik, R. (2010). **Use of mass media campaigns to change health behaviour**. *The Lancet*, 376 (9748): 1261-1271. Codwyd o: [https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736\(10\)60809-4/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(10)60809-4/fulltext)

Wathen a MacMillan. (2003). **Interventions for Violence Against Women: Scientific Review**. *JAMA*. 289(5): 589-600. Codwyd o: <https://jamanetwork.com/journals/jama/fullarticle/195898>

Y Sefydliad Iechyd. (2010). **Improvements in Practice: The IRIS case study**. Llundain: Y Sefydliad Iechyd.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). (2019). **Domestic abuse in England and Wales: year ending March 2018**. Codwyd o:

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/domesticabuseinenglandandwales/yearendingmarch2018>

Atodiad 1: Argymhellion

Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Dyma grynodeb o argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (Robinson et al., 2012).

5.1 CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

5.1.1 Arweinyddiaeth

- Sefydlu dull newydd i roi arweinyddiaeth strategol a dwyn gwasanaethau cyhoeddus i gyfrif (e.e. 'Comisiynydd i Ddiweddu Trais yn Erbyn Menywod').
- Sefydlu strwythur cefnogol, gyda ffocws ar ymchwil a dadansoddi, i alluogi'r Comisiynydd i gyflawni'r amcanion a bennodd (e.e. 'Arsyllfa Gymreig ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod')

5.1.2 Gwell addysg ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd

Ymwybyddiaeth y cyhoedd

- Cyflwyno dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd (yn genedlaethol a lleol) am bob math o drais personol sy'n effeithio'n bennaf ar fenywod a merched (trais domestig; trais rhywiol; trais ar sail anrhydedd; anffurfio organau cenedlu benywod; priodas dan orfod; masnachu pobl). Dylid datblygu'r rhain drwy ymgynghori â darparwyr gwasanaethau arbenigol er mwyn sicrhau bod y negeseuon yn gywir ac yn briodol.
- Dylid dangos gwybodaeth am 'Linell Gymorth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan' yn amlwg mewn asiantaethau yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

Addysg orfodol

- Dylai addysg ataliol am gydraddoldeb rhywiol, perthnasau iach, diogelwch a pharch fod yn statudol yn y cwricwlwm ABGI er mwyn mynd i'r afael â phob ffurf ar drais yn erbyn menywod a merched.
- Dylid cyhoeddi canllawiau statudol i ysgolion er mwyn hyrwyddo dull 'ysgol gyfan', sy'n gysylltiedig â'r agenda diogelu.
- Yn ogystal ag mewn ysgolion, dylai rhaglenni ataliol gael eu cyflwyno mewn lleoliadau eraill er mwyn cyrraedd pob plentyn/person ifanc drwy Gymru, gan gynnwys y rheini

nad ydynt mewn addysg brif ffrwd (e.e., pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), a drachefn dylai hyn fod yn gysylltiedig â'r agenda diogelu.

Hyfforddi gweithwyr proffesiynol

- Dylid rhoi hyfforddiant gorfodol i ddarparwyr gwasanaethau rheng flaen sy'n benodol i sectorau gwahanol, ac wedi'i ddatblygu'n genedlaethol fel bod y neges yn gyson drwy Gymru. Dylai fod cysylltiad rhwng yr hyfforddiant hwn a chymhwyster Datblygu Proffesiynol Parhaus. Dim ond hyfforddiant ar sail tystiolaeth ddylai gael ei roi, ac yn ddelfrydol bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyfuno â hyfforddiant gorfodol arall (e.e., ym maes amrywiaeth neu ddiogelu).
- Rhoi crynodeb o ddulliau gweithio sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth i weithwyr rheng flaen eu defnyddio. Byddai angen comisiynu'r crynodeb hwn, a dylai cyflogwyr fod yn gyfrifol am ei gylchredeg i'w gweithwyr.
- Dylai asiantaethau sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu a'i ddefnyddio i ddarparu cyfieithwyr ar y pryd proffesiynol, neu dylent ddefnyddio gwasanaethau dibynadwy fel y llinell iaith (<http://www.languageine.co.uk/>). Dylai fod gofyn i asiantaethau ddangos bod y cyfieithwyr ar y pryd y maent wedi'u caffael wedi ymrwymo i god ymddygiad addas ac wedi cael hyfforddiant perthnasol.

5.1.3 Cryfhau gwasanaethau

Gwaith amlasiantaethol

- Rhoi dyletswydd statudol ar gyrff datganoledig yn y sector cyhoeddus i gyfrannu at broses amlasiantaethol sy'n rheoli risg ac yn gwella diogelwch i ddiodefwyr (e.e. Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg).
- Darparu cyllid hirdymor rheolaidd, cyson ar gyfer gwasanaethau cefnogi arbenigol i ddiodefwyr.
- Cryfhau gwasanaethau i ddiodefwyr risg isel a risg ganolig drwy gyflwyno llwybr asesu a gofal cyffredin, a hwnnw'n defnyddio llinell gymorth genedlaethol i helpu gweithwyr proffesiynol eraill i reoli prosesau datgelu, asesu risg, cynllun diogelwch, ac atgyfeirio.
- Rhoi dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i rannu gwybodaeth berthnasol drwy brotocolau rhannu gwybodaeth amlasiantaethol y cytunwyd arnynt.
- Cryfhau ansawdd siopau un stop a helpu i leoli gwasanaethau yn yr un man.
- Helpu i roi rhaglenni achrededig RESPECT i gyflawnwyr ar waith yn gyson drwy Gymru.

Iechyd

- Yn gysylltiedig â'r argymhellion ar gyfer rhoi hyfforddiant orfodol i ymarferwyr rheng flaen ('addysg gydol oes'), argymhellir cyflwyno model amlasiantaethol i hwyluso ymholiadau arferol drwy Gymru (e.e. cynllun IRIS).

- Dylai fod gan bob bwrdd iechyd sydd ag adrannau damweiniau ac achosion brys ddull a phroses benodol i adnabod pobl sydd wedi cael eu hanafu drwy drais domestig, ac i weithio gyda hwy wedyn (e.e., canllawiau'r Coleg Meddygaeth Frys). I helpu'r broses hon, dylid creu swydd nyrs benodol sy'n adnabod, cefnogi ac amddiffyn y menywod a'r merched hynny sydd wedi'u hanafu o ganlyniad i drais.
- Cyflwyno llwybr gofal amlasiantaethol drwy Gymru i reoli'n well yr effeithiau ar iechyd meddwl pobl sydd wedi dod i gysylltiad â thrais (e.e. canllawiau Coleg Brenhinol y Seiciatryddion).
- Gwellu'r seilwaith adeiladau presennol i helpu claf i ddatgelu pethau'n gyfrinachol (e.e. sgriniau/trefniadau i sicrhau preifatrwydd mewn meddygfeydd), gan helpu gweithwyr iechyd proffesiynol i gyflawni eu dyletswydd i 'ofyn a gweithredu' drwy Gymru. Dylai pob adeilad newydd gydymffurfio â'r gofyniad hwn.
- Dylai'r GIG fabwysiadu polisïau i sicrhau y gall adnabod ac ymateb yn ddigonol i gymhlethdodau iechyd ac effeithiau niweidiol profi ffurfiau ar drais fel anffurfio organau cenhedlu benywod, gan gynnwys darparu llawdriniaeth adlunio.

Tai

- Sicrhau bod gwasanaeth i wella diogelwch, a hwnnw'n un cyflym ac effeithiol, ar gael i bawb, waeth beth yw eu statws tenantiaeth/perchnogaeth/meddiannaeth. Dylai fod cysylltiad rhwng hyn a modelau gwyllo a gyrru heibio'r heddlu, i sicrhau bod modd blaenoriaethu ymatebion i ddioddefwyr pan gymerwyd camau i wella diogelwch.
- Integreiddio camau i wella diogelwch yn holl waith cynnal a chadw cymdeithasau tai, fel y gellir darparu gwasanaeth drwy Gymru gyfan am gost isel.
- Dylid defnyddio llochesi yn unol â'u bwriad: sef rhoi llety diogel, dros dro mewn argyfwng (ar gyfer y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o niwed neu sydd angen lle diogel), am gyfnodau byr, ac fel yr opsiwn olaf. Dros amser dylid cyfeirio mwy o adnoddau (wrth i'r ymyriadau ataliol a'r ymyriadau cynnar ddechrau arwain at newid) i gadw dioddefwyr yn eu cartrefi'u hunain neu yn eu hardaloedd lleol.
- Dylid gosod targedau amlasiantaethol sy'n ceisio gwneud y canlynol: a) lleihau nifer y bobl sy'n mynd i lochesi a b) cwtogi'r amser y bydd pobl yn ei dreulio mewn llochesi, gan beidio ag achosi mwy o risg i fenywod a phlant.
- Darparu mynediad agored i loches i fenywod lleol a'u plant, a allai fod am gyfnod byr, tra bo camau'n cael eu cymryd i wella diogelwch y cartref neu tra bydd y cyflawnwr yn cael ei arestio neu ei reoli/adalw.
- Dylai fod mwy o opsiynau o ran llety symud ymlaen er mwyn ateb anghenion dioddefwyr sydd wedi gorfod symud o'u cartrefi'n barhaol.
 - Darparu cyflenwad digonol o dai cymdeithasol a/neu lety rhentu preifat sy'n ddiogel ac yn destun camau rheoleiddio (e.e., Cod Ymarfer ar gyfer landlordiaid y sector preifat).

- Rhaid ailgartrefu pobl yn brydlon, a dylid seilio hynny ar asesiad o'r risg y mae'r dioddefwr yn ei hwynebu.
 - Ystyried datblygu 'paneli symud ymlaen' drwy Gymru i hwyluso'r gwaith o gynnig opsiynau tai addas.
- Hyfforddiant gorfodol i swyddogion tai i sicrhau eu bod yn ymateb yn sensitif ac yn broffesiynol wrth ddelio â'r rheini sy'n profi trais a cham-drin.
- Gweithdrefnau troi allan a diweddu tenantiaeth cadarn ar gyfer cyflawnwyr, gan ddefnyddio'r safon profi sifil. Dylai tenantiaethau newydd ddatgan yn glir bod unrhyw ffurf ar drais yn erbyn menywod neu gam-drin domestig yn golygu bod y cyflawnwr yn torri amodau'r denantiaeth. Yn achos tenantiaethau ar y cyd, gallai hynny olygu bod modd troi allan un ohonynt.
- Sicrhau bod gwaith hirdymor yn parhau i gael ei wneud i alluogi dioddefwyr/groeswyr i adfer a wynebu'r byd, a gwneud dewisiadau da i'w hunain a'u plant, ond heb fod cysylltiad hanfodol rhwng hynny a darpariaeth ym maes tai.

Atodiad 2: Argymhellion

Gweithdy Goroeswyr

Llywodraeth Cymru

Galwodd goroeswyr am godi mwy o ymwybyddiaeth o drais domestig ac ymddygiadau sy'n ceisio rheoli pobl; a hynny er mwyn i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd deimlo'u bod wedi'u grymuso ac yn ddiogel wrth adnabod yr arwyddion, gan "ofyn a gweithredu". Galwodd un goroeswr am fwy o ymwybyddiaeth o sut i gefnogi rhywun o gefndir/diwylliant gwahanol.

Roedd y goroeswyr am i bawb oedd wedi ymwneud o gwbl â gwasanaethau allu defnyddio'r rhaglen Freedom (2020) ac ymyriadau eraill, er mwyn deall beth roeddent yn ei brofi. Gallai hynny'u galluogi i gamu o'u sefyllfa cyn y byddai angen rhoi llety iddynt mewn argyfwng.

Dylid gwarantu lle mewn lloches ar sail yr asesiad a'r ddealltwriaeth os nad yw rhywun yn ddiogel, yn bennaf oll dylid eu helpu i gael darpariaeth ddiogel. Roedd y goroeswyr am i'r meini prawf gael eu llacio gan olygu y byddai hyd yn oed y rheini heb y gallu i gael gafael ar gyllid cyhoeddus yn gallu defnyddio'r gwasanaeth y mae ei angen arnynt pryd bynnag y bydd hynny.

Roeddent am weld hyblygrwydd ynghylch anallu pobl i gael gafael ar gyllid cyhoeddus, a dylai fod mwy o gyllid penodol i helpu'r rheini y mae eu statws yn golygu na allant gael gafael ar arian cyhoeddus.

Argymhellodd goroeswyr y dylid cael swyddogion heddlu lleol, a'r rheini wedi'u hyfforddi ym maes trais domestig, ym mhob ardal.

Os yw'n bosibl, mae'r goroeswyr yn argymhell na ddylid gofyn iddynt ailadrodd eu profiadau pan fydd angen llety mewn argyfwng arnynt. Byddent yn ffafrio cael eiriolwyr i'w helpu â'r broses hon. Roeddent hefyd yn argymhell edrych ar y broses a'r meini prawf asesu er mwyn sicrhau mwy o hyblygrwydd, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd fel yr angen am gefnogaeth pan gaiff y cyflawnwr ei ryddhau o'r carchar.

Dylai cwnsela yn y fan a'r lle fod ar gael i bawb, ynghyd â'r gallu i ddefnyddio rhaglenni ymwybyddiaeth fel y rhaglen Freedom. Roeddent yn galw am roi'r gallu i bawb ddefnyddio strategaethau ymdopi, er mwyn deall eu sefyllfa, sy'n gallu'u helpu â'u hadferiad.

Dylai darparu dillad, teganau a manion eraill i'r rheini sy'n mynd i loches fod yn norm, gan roi cymorth ariannol i lochesi allu gwneud hyn.

Roeddent yn dweud hefyd bod angen rhoi seibiant i'r rheini sy'n gorfod treulio'r diwrnod cyfan gyda phlentyn ifanc – gweithgareddau i roi amser i'r rhiant feddwl, ac ati. Roeddent yn cynnig bod angen hyfforddi staff ynghylch hyn.

Roedd goroeswyr yn galw am ddarparu cefnogaeth orfodol wedi'i goruchwyllo i gyflawnwyr, a fyddai'n eu galluogi i newid eu hymddygiad. Roeddent yn teimlo na fyddai'r cyflawnwr yn mynychu pe bai unrhyw elfen o ddewis ynghlwm wrth hynny.

Y ddarpariaeth ddelfrydol: Ymhlith yr awgrymiadau roedd dysgu sut i deimlo a chadw'n ddiogel; adnabod arwyddion trais domestig a rheolaeth; y rhaglen Freedom a'r adnodd adfer; cefnogaeth barhaus; deall yr arwyddion mewn perthnasau newydd.

Manylion yr Awduron

Mae **Dr Jack Price** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Sarah Quarmby** yn ymchwilydd ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerdydd. Cyn hynny, bu'n Gynorthwydd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Craig Johnson** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dan Bristow** yn Gyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dan Bristow

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

Rydym yn ddiolchgar i'r **Athro Amanda Robinson** ac i'r rheini yn y sector trais a cham-drin domestig sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn. Yr awduron eu hunain sy'n gyfrifol am unrhyw gamgymeriadau neu fylchau.

OGI This report is licensed under the terms of the Open Government License